Rhif ymchwil gymdeithasol: 46/2026

Dyddiad cyhoeddi: 11/03/2026

# Fframwaith mesur Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: dogfen dechnegol ar gyfer mesur newid

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-286-6

Fframwaith mesur Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: dogfen dechnegol ar gyfer mesur newid

*Awduron: Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau Hiliol*

*Adroddiad Ymchwil Llawn: Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau Hiliol. (2026). Fframwaith mesur Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: dogfen dechnegol ar gyfer mesur newid. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 46/2026* Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR).

*Mae'r adroddiad ar gael yma:*: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-gwrth-hiliol-cymru-mesur-ei-effaith-ar-fywydau-pobl

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil

ECWL – Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth EPC

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

UnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ..... 3

Rhestr o ffigurau ..... 4

Diffiniadau a geirfa ..... 5

Byrfoddau ..... 7

1.1 Cefndir a datblygiadau ..... 8

1.2 Nodau ac amcanion ..... 8
1.3 Ymchwil perthnasol yn y gorffennol ..... 9
2.0 Methodoleg ..... 11
2.1 Nodi'r canlyniadau yr ydym eisiau eu mesur ..... 11
2.2 Themâu cyffredin ..... 12
2.3 Themâu penodol i bennod ..... 13
2.4 Nodi Dangosyddion ..... 15
2.5 Gwneud cymariaethau ..... 17
2.6 Cyfyngiadau data ..... 17
3.0 Fframwaith dangosyddion fesul pennod ..... 19
3.1 Arweinyddiaeth (Arwain) ..... 19
3.1.1 Mesurau arweinyddiaeth ..... 20
3.1.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data: ..... 25
3.2 Addysg a'r Gymraeg (E&WL) ..... 26
3.2.1 Mesurau Addysg a'r Gymraeg ..... 26
3.2.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data ..... 29
3.3 Diwylliant, treftadaeth a chwaraeon (CH&S) ..... 30
3.3.1 Mesurau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon ..... 30
3.3.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data ..... 33
3.4 Iechyd (HLTH) ..... 34
3.4.1 Mesurau iechyd ..... 34
3.4.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data ..... 37
3.5 Gofal cymdeithasol (SoCa) ..... 38
3.5.1 Mesurau gofal cymdeithasol ..... 39
3.5.2 Ffynonellau data a chyfyngiadau ..... 42
3.6 Cartrefi a lleoedd (H&P) ..... 42

3.6.1 Mesurau cartrefi a lleoedd ........ 43
3.6.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data: ........ 46
3.7 Llywodraeth Leol (LG) ........ 47
3.7.1 Mesurau llywodraeth leol ........ 47
3.7.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data ........ 50
3.8 Cyflogadwyedd a sgiliau, gan gynnwys partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg ac entrepreneuriaeth (E&S) ........ 50
3.8.1 Cyflogadwyedd a sgiliau, gan gynnwys partneriaeth gymdeithasol a mesurau gwaith teg ac entrepreneuriaeth ........ 50
3.8.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data ........ 52
3.9 Cenedl noddfa (NoS) ........ 53
3.9.1 Mesurau Cenedl noddfa ........ 53
3.9.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data ........ 55
3.10 Trosedd a chyfiawnder ........ 55
3.10.1 Troseddu a chyfiawnder, gan gynnwys mesurau troseddau casineb ........ 55
3.10.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data ........ 58
3.11 Gofal plant a chwarae (C&P) ........ 59
3.11.1 Mesurau gofal plant a chwarae ........ 60
3.11.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data ........ 61
4.0 Sut bydd y fframwaith hwn yn cael ei ddiweddaru yn y dyfodol? ........ 62
5.0 Cyfeiriadau ........ 62

## Rhestr o dablau

Tabl 1: Themâu cyffredin ........ 12
Tabl 2: Mesurau effaith fesul pennod ........ 13
Tabl 3: Mesurau arweinyddiaeth cyffredin ........ 20
Tabl 4 Mesurau arweinyddiaeth penodol ........ 23
Tabl 5: Mesurau addysg gyffredin a'r Gymraeg ........ 26
Tabl 6 Mesurau addysg penodol a'r Gymraeg ........ 27
Tabl 7: Mesurau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon cyffredin ........ 30
Tabl 8 Mesurau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon penodol ........ 31
Tabl 9: Mesurau iechyd cyffredin ........ 34
Tabl 10 Mesurau iechyd penodol ........ 36
Tabl 11: Mesurau gofal cymdeithasol cyffredin ........ 39
Tabl 12: Mesurau cartrefi a lleoedd cyffredin ........ 43
Tabl 13 Mesurau cartrefi a lleoedd penodol ........ 45
Tabl 14: Mesurau llywodraeth leol cyffredin ........ 47
Tabl 15 Mesurau llywodraeth leol penodol ........ 48
Tabl 16: Cyflogadwyedd a sgiliau cyffredin, gan gynnwys partneriaeth gymdeithasol a mesurau gwaith teg ac entrepreneuriaeth ........ 51
Tabl 17 Cyflogadwyedd a sgiliau penodol, gan gynnwys partneriaeth gymdeithasol a mesurau gwaith teg ac entrepreneuriaeth ........ 52
Tabl 18: Mesurau Cenedl Noddfa cyffredin ........ 53
Tabl 19: Mesurau troseddu a chyfiawnder cyffredin ........ 55
Tabl 20 Mesurau troseddu a chyfiawnder penodol ........ 57
Tabl 21: Mesurau gofal plant a chwarae cyffredin ........ 60

# Rhestr o ffigurau

Figur 1: Model rhesymeg Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol........................................10

## Diffiniadau a geirfa

### Data gweinyddol

Gwybodaeth a gesglir gan gyrff cyhoeddus at ddibenion gweithredol, ac y gellir ei defnyddio mewn ymchwil.

### Gwrth-hiliol

Dull rhagweithiol o nodi, herio a newid y systemau, y polisïau a'r arferion sy'n arwain at ganlyniadau negyddol i bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (Llywodraeth Cymru 2022a).

### Ceisiwr lloches

Person sydd wedi gadael ei wlad wreiddiol ac wedi gwneud cais ffurfiol am loches mewn gwlad arall, ond nad yw ei gais wedi'i gwblhau eto (Llywodraeth Cymru 2019).

### Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Pob grŵp ethnig ac eithrio Prydeinwyr Gwyn, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol Gwyn fel Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig, Roma neu bobl Iddewig, a rhieni a phlant o dreftadaeth gymysg (crynodeb awduron yn seiliedig ar Lywodraeth Cymru 2022a).

### Cyfwng hyder

Yn cynrychioli ystod o amgylch amcangyfrif sy'n adlewyrchu'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â defnyddio sampl yn hytrach na'r boblogaeth lawn (Swyddfa Ystadegau Gwladol, n.d.c.).

### Ethnigrwydd

Hunaniaeth ddiwylliannol wedi ei nodi gan berson ei hun sy'n seiliedig ar dreftadaeth, achau, iaith, crefydd neu draddodiadau diwylliannol a rennir, ac sy'n wahanol i hil (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025, addasedig).

### Pobl o leiafrifoedd ethnig

Term byrrach ar gyfer 'Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig' (crynodeb awduron yn seiliedig ar Lywodraeth Cymru 2022a)

### Sipsiwn a Theithiwr

Personau ag arferion bywyd nomadaidd beth bynnag fo'u hil neu darddiad, gan gynnwys y personau sydd, ar sail eu hanghenion addysgol neu iechyd eu hunain neu eu teulu neu ddibynyddion neu henaint wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro, ond yn eithrio aelodau o grŵp trefnedig o bobl sioe deithiol neu bobl syrcas sy'n teithio gyda'i gilydd fel y cyfryw. (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2015)

### Troseddau casineb

Unrhyw drosedd sy'n cael ei hystyried gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall ei bod wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail nodwedd warchodedig (hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, neu hunaniaeth drawsryweddol) (Gwasanaeth Erlyn y Goron 2024).

**Effaith**

Newid neu wahaniaeth hirdymor, ystyrlon sy'n deillio o bolisi, gweithred neu ymyrraeth fel lleihau gwahaniaethau hiliol mewn cyflogaeth.

**Dangosydd**

Darn penodol, arsylwadwy a mesuradwy o wybodaeth sy'n dangos a yw cynnydd yn cael ei wneud tuag at amcan, gweithgaredd neu ganlyniad. Defnyddir dangosyddion i fonitro newid, asesu perfformiad, a deall a yw polisïau neu gamau gweithredu yn cael eu heffaith fwriadedig *(Addaswyd o drysorlys EM, 2020).*

**Mesur**

Ffordd o fesur a monitro canlyniad penodol.

**Dangosydd Cenedlaethol**

Wedi'i gynllunio i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru a'i phobl a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at y saith nod llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Llywodraeth Cymru, 2022b).

**Amcan**

Y newid y mae'r ymyrraeth yn ceisio ei gyflawni.

**Canlyniad**

Newidiadau neu effeithiau tymor byr i ganolig sy'n deillio o gamau gweithredu neu ymyriadau megis mwy o hyder wrth adrodd am hiliaeth

**Allbwn**

Canlyniadau uniongyrchol, mesuradwy y camau a gymerwyd - megis nifer y bobl a hyfforddwyd neu ddigwyddiadau a gynhaliwyd.

**Nodwedd warchodedig**

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 (Llywodraeth y DU, 2010a), mae yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn unrhyw un (yn y gwaith, ym myd addysg, fel defnyddiwr, wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, wrth brynu neu rentu eiddo, fel aelod neu westai clwb neu gymdeithas breifat) oherwydd y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- oedran
- ailbennu rhywedd

• bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil

• bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth

• anabledd

• hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol

• crefydd neu gred

• rhyw

• cyfeiriadedd rhywiol

**Hil**

Yn cyfeirio at liw, cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), a tharddiad ethnig neu genedlaethol person (Llywodraeth y DU, 2010).

**Ffoadur**

Person y tu allan i'w wlad, sydd ag ofn dilys o erledigaeth oherwydd ei hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu farn wleidyddol. Nid yw'n gallu neu nid yw'n awyddus i ddychwelyd yno, oherwydd ei fod ofn erledigaeth (Llywodraeth Cymru 2019).

**Romani/Roma**

Grŵp ethnig y credir ei fod wedi tarddu yng Ngogledd India ac wedi mudo trwy Ewrop dros ganrifoedd lawer (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025).

**Ceisiwr noddfa**

Mae ceisiwr noddfa (neu "person sy'n ceisio noddfa") yn cyfeirio'n fras at berson sy'n ceisio diogelwch ac amddiffyniad, ni waeth a yw wedi'i ddosbarthu'n gyfreithiol fel ffoadur neu geisiwr lloches. Defnyddir y term i bwysleisio angen yr unigolyn am ddiogelwch, yn hytrach na'i statws mewnfudo (Llywodraeth Cymru 2019).

**Hiliaeth systemig**

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn diffinio hiliaeth systemig fel yr anghydraddoldebau hiliol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn a brofir gan bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2022a).

# Byrfoddau

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP)

Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB)

Cenedl Noddfa (NoS)

Mesurau Profiad a Adroddir gan Glaf (PREM) Cenedlaethol a Lleol

Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH)

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

Uwch Was Sifil (SCS)

Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol (SEHRP)

Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol (CAMPUS)

Dangosydd Llesiant Cenedlaethol (NWI)

Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES)

Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu ar gyfer Gofal Cymdeithasol (WRESSC)

## 1.1 Cefndir a datblygiadau

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP) (Llywodraeth Cymru 2022a) mewn ymateb i'r gydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i fynd i'r afael â hiliaeth systemig a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Mae'r cynllun wedi'i gyd-gynhyrchu a’i nod yw creu cymdeithas fwy cynhwysol a thecach trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldebau hil a sicrhau bod pob unigolyn, beth bynnag fo ei hil neu ethnigrwydd, yn cael cyfleoedd cyfartal i lwyddo.

Mae'r ArWAP yn gynllun manwl a chymhleth sy'n cynnwys camau gweithredu ac ymrwymiadau ar draws polisïau Llywodraeth Cymru ym mhob maes gan gynnwys addysg, iechyd, cyflogaeth, tai a llawer mwy. Ei nod yw mynd i'r afael â materion uniongyrchol a hirdymor sy'n wynebu cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at yr angen am gydweithrediad rhwng asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau cymunedol, a rhanddeiliaid eraill i gyrraedd ei nodau.

Pwrpas cyffredinol pennod mesur ArWAP (Llywodraeth Cymru, 2024a, t12) yw creu system gref ar gyfer olrhain cynnydd a gwerthuso effaith y camau a gymerwyd. Mae hyn yn cynnwys datblygu dangosyddion clir i sicrhau bod canlyniadau'r cynllun yn cael eu monitro a'u hasesu'n effeithiol.

### 1.2 Nodau ac amcanion

**Nod:**

Nod cyffredinol y fframwaith dangosyddion ArWAP hwn yw creu system gadarn, strwythuredig ar gyfer mesur cynnydd cyffredinol y cynllun. Bydd y fframwaith yn helpu i annog atebolrwydd a gwelliant parhaus mewn ymdrechion i frwydro yn erbyn hiliaeth a hyrwyddo cydraddoldeb hil yng Nghymru.

**Amcanion:**

Amcanion y fframwaith dangosyddion ArWAP hwn yw:

1. **Datblygu dangosyddion clir**: Sicrhau bod canlyniadau allweddol y cynllun yn cael eu monitro a'u hasesu'n effeithiol.

2. **Annog atebolrwydd**: Hyrwyddo atebolrwydd o ran cyflawni cynnydd mesuradwy wrth hyrwyddo cydraddoldeb hil yng Nghymru.

3. **Gwella tryloywder**: Darparu gwybodaeth glir a hygyrch am effaith y camau a gymerwyd.

**Gwelliant parhaus**: Galluogi dysgu rheolaidd a mireinio dulliau trwy fonitro data a chynnwys profiadau bywyd i fynd i'r afael â hiliaeth systemig a hyrwyddo cydraddoldeb hil.

Trwy nodi dangosyddion clir, mae'r fframwaith yn sicrhau bod cynnydd ar ganlyniadau allweddol yr ArWAP yn fesuradwy, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn agored i graffu. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer cynnal lefel uchel o atebolrwydd yn yr ymdrechion i frwydro yn erbyn hiliaeth a hyrwyddo cydraddoldeb hil yng Nghymru. Trwy sefydlu'r dangosyddion hyn, nod y fframwaith yw meithrin tryloywder wrth werthuso effaith y cynllun a chryfhau atebolrwydd ar draws y sectorau.

Mae'r fframwaith hefyd yn ymgorffori'r egwyddor o welliant parhaus. Trwy fonitro ac asesu rheolaidd, mae'n annog mireinio a gwella parhaus y strategaethau a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â hiliaeth systemig. Y nod yw creu cymdeithas fwy cynhwysol a thecach lle mae pob unigolyn, ni waeth beth fo ei gefndir, hil neu hethnigrwydd, yn cael cyfleoedd cyfartal i lwyddo.

## 1.3 Ymchwil perthnasol yn y gorffennol


Pan gyhoeddwyd fersiwn gyntaf yr ArWAP yn 2022, roedd yn cynnwys adran o'r enw: 'Sut y Byddwn yn Cyflawni'r Cynllun Hwn' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 29-34). Roedd hyn yn amlinellu dull y llywodraeth gyfan o ymgorffori gwrth-hiliaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Roedd cyflawni wedi'i strwythuro o amgylch atebolrwydd a rennir, gyda phob maes polisi yn gyfrifol am weithredu ac adrodd ar ei weithredoedd ei hun. Mae'r fersiwn gyntaf hon o'r ArWAP yn nodi chwe 'maes pryder' a ddatblygwyd gydag aelodau o'r gymuned yn nodi sut olwg fyddai ar 'dda' pe baem yn symud yn sylweddol tuag at fod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030. Roedd y meysydd pryder hyn:

- Mewn perthynas â chydnerthedd a llwyddiant pobl o leiafrifoedd ethnig er gwaethaf hiliaeth a brofwyd.
- Mewn perthynas â phrofiad pobl o hiliaeth mewn bywyd bob dydd.
- Mewn perthynas â phrofiad pobl o hiliaeth wrth ddarparu gwasanaethau.
- Mewn perthynas â phrofiad pobl o hiliaeth yn y gweithle/hiliaeth wrth gael swyddi a chyfleoedd.
- Mewn perthynas â phrofiad pobl o leiafrifoedd ethnig pan fo diffyg esiamplau gweladwy mewn swyddi ag awdurdod.

- Mewn perthynas â phrofiad pobl o leiafrifoedd ethnig o hiliaeth mewn meysydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru (meysydd nad ydynt wedi'u datganoli), er enghraifft yn eich profiad fel ffoaduriaid neu geiswyr lloches.

Yn 2024, diweddarwyd yr ArWAP, gan gynnwys pennod newydd: 'Sut y Byddwn yn Mesur Newid' (Llywodraeth Cymru, 2024a, t.12). Ers cyhoeddi fersiwn gyntaf y cynllun, datgelodd gwaith gyda phobl o leiafrifoedd ethnig a rhanddeiliaid allweddol eraill yr angen i ehangu ar y dyheadau monitro a mesur yn fersiwn gyntaf y cynllun i fesur ei effaith hirdymor. Mae ArWAP 2024 wedi'i ddiweddaru yn cyflwyno'r cysyniad o fodel rhesymeg, sy'n dangos sut rydym yn disgwyl i'r camau sy'n cael eu cymryd arwain at newid ac yn disgrifio'r broses o ddatblygu fframwaith ar gyfer mesur y newid hwn (Llywodraeth Cymru, 2024a, t.12)

Mae'r model rhesymeg ArWAP yn fap sy'n cynrychioli'r perthnasoedd a rennir rhwng mewnbynnau, allbynnau ac effaith y cynllun. Mae'r model yn cysylltu sut y bydd cyflawni camau gweithredu yn arwain at effaith gyffredinol fwriadedig y cynllun (Cymru wrth-hiliol) erbyn 2030. Mae'r model rhesymeg yn darparu dull cyson a chymharol ar draws penodau i fesur effaith gyffredinol y cynllun.




*Ffigur 1: Model rhesymeg ArWAP*

Cyhoeddwyd adroddiad cryno, sy'n amlinellu dull posibl o ddatblygu fframwaith dangosyddion ar gyfer yr ArWAP ym mis Rhagfyr 2024 (Llywodraeth Cymru, 2024b). Er mwyn mynd i'r afael â'r her o gymhlethdod a graddfa'r cynllun ArWAP a nifer y camau gweithredu sydd ynddo, cynigiodd yr adroddiad cryno y dylid defnyddio themâu allweddol, neu feysydd blaenoriaeth wrth nodi dangosyddion ar gyfer pob pennod ArWAP. Rhannwyd y themâu allweddol hyn yn themâu cyffredin a oedd yn berthnasol a chymwysadwy i sawl

un neu'r cyfan o'r penodau (mae'r rhain wedi'u nodi gan Grŵp Atebolrwydd Allanol ArWAP, yn ogystal â themâu penodol i bennod.

Mae'r adroddiad fframwaith dangosyddion ArWAP hwn yn adeiladu ar yr adroddiad cryno trwy nodi dangosyddion arfaethedig ar gyfer pob un o'r themâu allweddol hyn, ac yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer gwneud hynny.

Fel y nodir yn yr adroddiad cryno (Llywodraeth Cymru, 2024b, t.3), mae'n bwysig nodi bod y dangosyddion meintiol a gynigir yn yr adroddiad hwn yn rhan o raglen fesur a gwerthuso ehangach ar gyfer yr ArWAP, gan gynnwys proses sydd ar ddod a gwerthusiad effaith cynnar. Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen arnom i fesur newid ar gyfer yr ArWAP yn gymysgedd o ddata; data meintiol (rhifau ac ystadegau), y bydd rhai ohonynt yn deillio o'r dangosyddion a gynigir yn y fframwaith hwn, yn ogystal â data ansoddol gan gynnwys profiad bywyd, a fydd yn deillio o ffynonellau eraill fel y gwerthusiad ArWAP arfaethedig.

Bwriad y dangosyddion yn yr adroddiad hwn yw darparu crynodeb lefel uchel, trosfwaol o gynnydd ArWAP ac i helpu i asesu a yw'r cynllun yn cyflawni fel y bwriadwyd. Nid yw adrodd manwl o'r holl 200+ camau gweithredu ArWAP ar lefel unigol o fewn cwmpas y fframwaith dangosyddion hwn. Lle bo hynny'n briodol, bydd patrymau lefel uchel a nodwyd gan y fframwaith dangosyddion yn cael eu harchwilio yn fanylach trwy ymchwil pellach, neu elfennau eraill o'r fframwaith mesur a gwerthuso ehangach, megis y broses ArWAP yn y dyfodol a gwerthuso effeithiau cynnar.

Mae pob pennod yn yr ArWAP yn cynnwys sawl nod, ynghyd â chamau gweithredu penodol sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r nodau hynny. Unwaith y bydd gweithred wedi'i chwblhau, dylai arwain at ganlyniad mwy cyffredinol y gellir ei fesur yn haws. Mae'r nodau, y camau gweithredu a'r canlyniadau hyn wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n bodloni'r canlynol, 'Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol (CAMPUS)'. Gyda 247 o gamau gweithredu a chanlyniadau cysylltiedig yn y cynllun, nid yw'n bosibl mesur cynnydd pob un o'r rhain o fewn y fframwaith dangosyddion hwn. Yn hytrach, mae nifer fach o ganlyniadau sylfaenol wedi'u nodi ar gyfer pob pennod, er mwyn galluogi'r fframwaith hwn i edrych ar effaith yr ArWAP ar lefel uwch neu ehangach. O ystyried y nifer fawr o ganlyniadau, roedd angen blaenoriaethu canlyniadau allweddol i'w mesur o fewn y fframwaith dangosyddion hwn er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn cadw nifer o ddangosyddion a oedd yn ddefnyddiol ac y gellir eu rheoli, gan barhau i gasglu digon o wybodaeth i ddarparu crynodeb o'r cynnydd ar gyfer pob pennod ArWAP.

# 2.0 Methodoleg

## 2.1 Nodi'r canlyniadau yr ydym eisiau eu mesur

Dechreuodd y cam cyntaf o ran nodi'r canlyniadau i'w mesur o fewn fframwaith ArWAP gydag adolygiad manwl o'r canlyniadau, sy'n gysylltiedig â phob cam gweithredu o fewn 11 pennod polisi technegol yr ArWAP (Nid yw penodau technegol ArWAP ar gael i'r cyhoedd ond maent ar gael ar gais drwy e-bostio **EqualityAndHumanRightsDivision@gov.wales**).

Gan gydnabod anymarferoldeb mesur pob canlyniad sy'n gysylltiedig â'r 247 o gamau gweithredu o fewn yr ArWAP yn unigol, dewiswyd canlyniadau allweddol trwy grwpio'r holl ganlyniadau mewn themâu a dewis canlyniadau allweddol yn ôl y themâu hyn. Fe wnaethom nodi themâu cyffredin—perthnasol a chymwysadwy i benodau lluosog—a themâu penodol i bennod, fel y disgrifir yn adroddiad cryno fframwaith ArWAP (Llywodraeth Cymru, 2024b). Roedd themâu penodol i bennod yn mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd unigryw o fewn meysydd polisi penodol. Roedd y dull grwpio strategol hwn yn caniatáu fframwaith dangosyddion symlach a mwy rheoladwy, gan sicrhau bod y canlyniadau mwyaf beirniadol ac effeithiol yn cael eu blaenoriaethu. Yn seiliedig ar egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd y cynllun, ac er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli wrth ddylunio'r fframwaith dangosyddion, roedd y broses hon hefyd yn cynnwys ymgynghori â Grŵp Atebolrwydd Allanol ArWAP, yn ogystal â thimau polisi a rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu ym mhob Pennod ArWAP. Ymgynghorwyd â phob un o'r rhanddeiliaid hyn ar y canlyniadau allweddol a nodwyd i'w cynnwys yn y fframwaith mesur a diwygiwyd y canlyniadau a ddewiswyd yn ôl eu hadborth.

## 2.2 Themâu cyffredin

Fel y disgrifir yn 2.1 ac a nodwyd yn flaenorol yn adroddiad cryno fframwaith ArWAP (Llywodraeth Cymru, 2024b), y themâu cyffredin a nodwyd ar draws llawer o benodau ArWAP y bydd y fframwaith dangosyddion yn eu hystyried mewn ffordd gyson yw:

*Tabl 1: Themâu cyffredin*

| Themâu cyffredin | Esboniad |
|---|---|
| Llesiant | Mae llesiant yn cynnwys iechyd meddyliol, corfforol ac emosiynol, gan sicrhau bod unigolion o leiafrifoedd ethnig yn cael mynediad cyfartal at adnoddau a chymorth. |
| Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu | Mae cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu yn fesurau allweddol i sicrhau bod unigolion lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli'n deg ar draws gwahanol sectorau ac yn cael cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth a dilyniant. |
| Bwlio, aflonyddu a chwynion | Mae bwlio, aflonyddu a chwynion yn effeithio'n uniongyrchol ar lesiant a diogelwch unigolion, yn enwedig o fewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r mesur hwn yn helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw arferion gwahaniaethol neu amgylcheddau gelyniaethus a allai fodoli, ar draws gwahanol sectorau. |

| | |
|---|---|
| Mynediad at wasanaethau | Mae sicrhau mynediad teg at ofal iechyd, addysg, tai, a gwasanaethau hanfodol eraill yn hanfodol ar gyfer gwella ansawdd bywyd a hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r mesur hwn yn helpu i nodi rhwystrau a chefnogi mentrau sy'n gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau a hygyrchedd i bawb. |

Mae'r themâu cyffredin hyn yn bresennol yn y mwyafrif, ond nid ym mhob un o Benodau ArWAP.

## 2.3 Themâu penodol i bennod

Yn ogystal â mesurau sy'n gyffredin ar draws y rhan fwyaf o benodau ArWAP, mae mesurau penodol i bennod hefyd yn hanfodol i fynd i'r afael ag anghenion penodol pob pennod. Cafodd y mesurau penodol hyn eu nodi a'u blaenoriaethu gan yr arweinwyr ar gyfer pob pennod.

*Tabl 2: Mesurau effaith fesul pennod*

| Pennod | Themâu penodol | Esboniad |
|---|---|---|
| Arweinyddiaeth | Aeddfedrwydd diwylliannol | Mae'r thema aeddfedrwydd diwylliannol yn edrych ar wahanol ddangosyddion ynghylch diwylliant Llywodraeth Cymru a sut mae staff yn cael eu trin fel unigolion. |
| Addysg a'r Gymraeg | Siaradwyr Cymraeg | Bydd deall nifer y myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru sy'n dysgu Cymraeg yn ein helpu i archwilio rhwystrau rhag dysgu Cymraeg. |
| | Gwaharddiadau ac absenoldeb | Bydd data ar waharddiadau ac absenoldeb yn helpu i nodi pa un a effeithir yn anghymesur ar grwpiau penodol. |
| | Cyrhaeddiad addysgol | Bydd edrych ar gyrhaeddiad addysgol yn ôl |

| | | |
|---|---|---|
| | | ethnigrwydd yn helpu i nodi gwahaniaethau ac os oes angen cymorth ychwanegol. |
| Diwylliant, treftadaeth a chwaraeon | Cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon | Mae mesur cyfranogiad yn ôl ethnigrwydd yn hyrwyddo cynhwysiant, deall safbwyntiau amrywiol, a sicrhau cynrychiolaeth a chyfleoedd teg i bob cymuned. |
| Iechyd | Iechyd mamau | Bydd hyn yn helpu i nodi gwahaniaethau sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd i sicrhau bod pob mam yn derbyn gofal teg a diwylliannol briodol. |
| | Iechyd meddwl | Mae iechyd meddwl yn effeithio ar bob agwedd ar fywydau pobl. Bydd gallu mesur yn ôl ethnigrwydd yn helpu i nodi unrhyw wahaniaethau. |
| Gofal cymdeithasol | Pobl sy'n derbyn gofal a chymorth | Mae pobl sy'n derbyn gofal a chymorth yn rhai o'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae mesur gwahaniaethau yma yn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl oherwydd hil. |
| Cartrefi a lleoedd | Sefyllfa dai | Mae mesur anghydraddoldebau tai hefyd yn helpu i fynd i'r afael â chanlyniadau iechyd, iechyd meddwl, addysg a chyflogaeth gwael. |
| | Digartrefedd | Mae mesur mynediad at gymorth tai yn helpu i sicrhau bod |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwasanaethau'n deg ac yn gynhwysol i bawb. |
| Llywodraeth Leol | Cynrychiolaeth aelodau etholedig | Elfen bwysig o ArWAP yw sicrhau bod aelodau etholedig yn cynrychioli'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, gan gynnwys amrywiaeth. |
| Cyflogadwyedd a sgiliau, gan gynnwys partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg ac entrepreneuriaeth | Bwlch cyflog | Nodi a mesur unrhyw anghydraddoldebau cyflog yn ôl ethnigrwydd. |
| Cenedl noddfa | Cydlyniant cymunedol | Gall dangosyddion sy'n mesur cydlyniant cymunedol ein helpu i ddeall sut mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu. |
| Trosedd a chyfiawnder | Cydlyniant cymunedol | Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae cymunedau o wahanol gefndiroedd yn gweithredu gyda'i gilydd ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth |
| | Troseddau casineb | Mae mesur a mynd i'r afael â throseddau casineb yn eu holl ffurfiau yn elfen bwysig ar draws y cynllun. |
| Gofal plant a gwaith chwarae | Dim mesurau penodol i bennod ar gael | Nid oes unrhyw ddata priodol ar gael ar hyn o bryd i gefnogi mesur y bennod hon |

## 2.4 Nodi Dangosyddion

Ar ôl nodi'r canlyniadau blaenoriaeth, cynhaliwyd ymarfer mapio i nodi ffynonellau data a allai ddarparu dangosyddion meintiol defnyddiol i fesur y canlyniadau hyn. Gan ddefnyddio'r meini prawf cynhwysiant canlynol i lywio'r broses o ddewis dangosyddion a ffynonellau data cysylltiedig, lle bo'n bosibl, mae'n rhaid i'r dangosyddion:

- Fod yn berthnasol i'r ArWAP.
- Cynrychioli mesur canlyniad ar gyfer y grŵp o bobl sy'n cael eu mesur (e.e. gwahanol grwpiau ethnig)
- Cynnwys data credadwy, cadarn a gyhoeddir yn rheolaidd (nid oedd creu casgliadau data newydd, pwrpasol at ddibenion y fframwaith dangosyddion hwn o fewn y cwmpas).
- Bod yn seiliedig ar set ddata o faint a graddfa briodol i ganiatáu dadansoddiad cadarn
- Bod â dehongliad clir a dealladwy iawn.
- Yn ychwanegu gwerth heb fod yn ddyblyg.
- Cefnogi Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2025, t.6)

Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym wedi dewis dangosyddion sy'n mesur nod neu ganlyniad ArWAP yn uniongyrchol. Fodd bynnag, lle nad oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu mesur uniongyrchol, rydym wedi cynnig dangosyddion dirprwyol yn lle hynny. Mae'r rhain yn parhau i fod yn berthnasol i'r nod neu'r canlyniad gwreiddiol, ond yn darparu mesuriad anuniongyrchol yn lle hynny.

Mae Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022b) yn darparu modd cadarn i fodloni'r meini prawf uchod (Llywodraeth Cymru, 2022b). Yn unol â chanllawiau gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, ystyriwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn yn gyntaf wrth nodi dangosyddion ar gyfer fframwaith dangosyddion ArWAP. Lle nad yw'r dangosyddion cenedlaethol yn cwmpasu'r canlyniadau a ddewiswyd ar gyfer y fframwaith, defnyddiwyd ffynonellau eraill ar gyfer dangosyddion sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

Lle bo'n bosibl, defnyddiwyd dangosyddion o fframweithiau polisi presennol, yn hytrach na chreu dangosyddion pwrpasol, er mwyn osgoi dyblygu (fel y nodir yn y meini prawf uchod). Ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd polisi, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi mesurau canlyniadau sy'n ein helpu i ddeall profiadau pobl. Os gellir dadansoddi'r mesurau canlyniadau hyn yn ôl ethnigrwydd, byddwn yn gallu deall sut mae profiadau a chanlyniadau pobl yn wahanol yn ôl eu hethnigrwydd a gallu olrhain newidiadau ar gyfer gwahanol grwpiau ethnigrwydd.

O ystyried ffocws yr ArWAP ar hil a chynhwysiant, rhagofyniad arall oedd y dylai unrhyw ddata sy'n sail i'r dangosyddion ddarparu maint sampl digon effeithiol i ganiatáu dadansoddiad dibynadwy yn ôl ethnigrwydd**.** Lle bo angen, cynhaliwyd dadansoddiad i gadarnhau y byddai cyfyngau hyder ar gyfer grwpiau poblogaeth llai yn arwain at ganlyniadau dadansoddol ystyrlon. Roedd yr ystyriaethau hyn yn cyfeirio'r broses ddethol tuag at Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB), y ddau ohonynt yn darparu samplau mawr ac yn cyhoeddi data wedi'i adnewyddu'n rheolaidd.

## 2.5 Gwneud cymariaethau

Mae alinio fframwaith dangosyddion ArWAP â Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol Llywodraeth Cymru (SEHRP) a fframweithiau cydraddoldeb eraill yn bwysig. Mae'r SEHRP yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu. Gall alinio fframwaith ArWAP â SEHRP helpu i sicrhau bod dull cydlynol ar gyfer cydraddoldeb ar draws gwahanol nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys hil, rhyw, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fframwaith hwn hefyd yn croestorri â fframweithiau cydraddoldeb eraill, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n pwysleisio egwyddorion datblygu cynaliadwy a thegwch hirdymor. Mae'r integreiddio hwn yn sicrhau bod mesurau a gymerir o dan yr ArWAP yn cyfrannu at nodau llywodraethol ehangach, gan greu synergeddau a gwella effaith mentrau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.

Ystyriwyd y gofyniad hwn i sicrhau aliniad ar draws cynlluniau gweithredu cydraddoldeb Llywodraeth Cymru hefyd wrth ddylunio'r Fframwaith Mesur ArWAP.

## 2.6 Cyfyngiadau data

Sefydlwyd Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru[1] yn 2022 i wella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd data a thystiolaeth am unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig. Mae diweddariadau rhanddeiliaid blynyddol yr unedau yn amlinellu'r ystod eang o brosiectau sydd ar y gweill i wella'r sylfaen dystiolaeth cydraddoldeb (Llywodraeth Cymru, 2025a).

Fodd bynnag, er bod y prosiectau tymor hwy hyn yn mynd rhagddynt, er mwyn deall pa wahaniaeth y mae'r ArWAP yn ei wneud yn y tymor byr, roedd angen defnyddio'r data sydd ar gael ar hyn o bryd, gan dderbyn ei gyfyngiadau, wrth ddatblygu'r dangosyddion ar gyfer Fframwaith dangosyddion ArWAP.

Amlinellir cyfyngiadau data dangosyddion a/neu ffynonellau data penodol yn Adran 3 o'r ddogfen hon. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau data mwy cyffredinol a drafodir yn fanwl isod. Er nad yw'r fframwaith mesur hwn yn cynnwys data crai, bwriedir i'r cyfyngiadau a ddisgrifir isod ac yn Adran 3 ddarparu digon o fanylion i gefnogi fersiwn sy'n cynnwys data crai o'r fframwaith mesur hwn yn y dyfodol.

Fel y nodir yn yr adroddiad cryno (Llywodraeth Cymru, 2024b, t.3), ein bwriad yw y bydd y fframwaith hwn yn cael ei ehangu a'i fireinio wrth i welliannau i'r ffynonellau data o fewn y sylfaen dystiolaeth cydraddoldeb gael eu cyflawni, neu wrth i ffynonellau data newydd fod ar gael.

**Argaeledd a chymharedd data yn ôl ethnigrwydd**

[1] Yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | LLYW. CYMRU

Mae'r ArWAP yn gynllun gweithredu uchelgeisiol sy'n cwmpasu ystod eang o feysydd pwnc. Felly, mae ein fframwaith dangosyddion arfaethedig yn cynnwys dangosyddion a dynnwyd o ystod eang o ffynonellau data. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y bydd argaeledd a manylder data ethnigrwydd yn amrywio rhwng dangosyddion a ffynonellau data, yn dibynnu ar nifer y cyfranogwyr ym mhob set ddata

Er enghraifft, mae rhai dangosyddion yn cael eu tynnu o ffynonellau data gweinyddol. Data gweinyddol yw data sy'n cael ei gasglu gan sefydliadau (e.e. ysgolion neu'r GIG) at ddibenion gweinyddol neu weithredol, gyda defnydd ystadegol yn ddiben eilaidd. Oherwydd bod y ffynonellau hyn yn aml yn cwmpasu poblogaeth gyfan, gall dangosyddion sy'n deillio o'r ffynonellau hyn ddarparu dadansoddiad mwy manwl yn ôl ethnigrwydd na dangosyddion sy'n dod o ddata arolwg. Mae hyn oherwydd bod ffynonellau data gweinyddol yn aml yn fwy, tra bod data arolwg fel arfer yn cynnwys nifer llai o gyfranogwyr, sy'n golygu pan fydd y data yn cael ei gydgasglu yn ôl ethnigrwydd, gall maint yr is-grwpiau fod yn rhy fach i ganiatáu dadansoddiad ystadegol cadarn, neu i fodloni rheolau datgelu ar gyfer cyhoeddi.

**Hunanadrodd, adrodd dirprwyol a pheidio â datgelu**

Mae'r rhan fwyaf o ffynonellau data a ddefnyddir yn y fframwaith dangosyddion hwn yn casglu data ethnigrwydd trwy 'hunanadrodd'. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai achosion lle mae data ethnigrwydd wedi cael ei adrodd gan rywun arall – h.y. trwy adrodd gan 'drydydd parti' neu 'ddirprwy'. Yn gyffredinol, bydd ymatebion 'dirprwyol' o ansawdd is na phan fydd rhywun yn adrodd eu hethnigrwydd eu hunain.

Gall unigolion hefyd ddewis peidio â datgelu eu hethnigrwydd pan ofynnir iddynt. Bydd cyfraddau peidio â datgelu yn amrywio rhwng ffynonellau data a thros amser.

**Cyfyngiadau maint y sampl**

Mae llawer o'r dangosyddion yn y fframwaith yn cael eu cyfrifo o ddata arolwg. Fodd bynnag, gall cynhyrchu amcangyfrifon cadarn a manwl gywir o is-boblogaethau bach o ddata arolwg fod yn heriol oherwydd cyfyngiadau maint y sampl. Yn benodol, os yw sampl arolwg yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach, bydd is-boblogaethau llai yn cael eu cynrychioli gan feintiau sampl llai ac, yn gyffredinol, mae meintiau sampl llai yn arwain at amcangyfrifon llai cadarn/manwl gywir. Mae hyn yn aml yn atgyfnerthu tangynrychiolaeth ac yn tynnu sylw at yr angen i ategu'r bylchau hyn trwy ddefnyddio tystiolaeth ansoddol.

Y bwriad yw y byddai unrhyw ddadansoddiad sy'n defnyddio'r ffynonellau data dangosyddion a nodwyd, yn darparu dadansoddiad is-grŵp gan ddefnyddio'r grwpiau ethnigrwydd o safonau cysoni ethnigrwydd Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GYLl), er mwyn sicrhau cymharedd. *Ethnicity Harmonised Standard*, GYLl (Llywodraeth y DU, 2025).

Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 2.3% o boblogaeth Cymru yn uniaethu fel "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig", roedd 1.6% yn uniaethu fel "grwpiau ethnig cymysg neu luosog" a 0.9% yn uniaethu fel "Du, Du Prydeinig neu Ddu Cymreig"; Felly, o ystyried maint cymharol fach y poblogaethau hyn, mae'n debygol y bydd angen cydgasglu rhai o'r 18 grŵp ethnigrwydd a nodir yn y safon gysoni ethnigrwydd i gynhyrchu data dangosyddion digon

cadarn a manwl gywir[2] mewn unrhyw ddadansoddiad yn y dyfodol. Yn nodweddiadol, mae'r rhain yn cael eu cydgasglu i bum grŵp: Du, Asiaidd, Cymysg, Gwyn ac Arall. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen cynrychioli'r data mewn dau gategori yn unig (Gwyn a Lleiafrifoedd Ethnig). Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad yw'r meintiau sampl llai hynny yn cael eu cynrychioli'n unigol ond wedi'u grwpio gyda'i gilydd i gategori Lleiafrifoedd Ethnig ehangach. Pan fydd y fframwaith dangosyddion yn cael ei boblogi gan ddefnyddio'r ffynonellau data a nodwyd, gwneir pob ymdrech i leihau agregu, lle bo hynny'n bosibl.

Bydd atebion amgen hefyd yn cael eu harchwilio yn y dyfodol, megis cyfuno blynyddoedd arolwg i gynhyrchu meintiau sampl mwy a dadansoddiadau mwy manwl yn ôl grŵp ethnig.

**Cyfyngiadau maint carfan**

Fel y disgrifir uchod, byddai dadansoddiad is-grŵp ethnigrwydd gan ddefnyddio'r ffynonellau data a nodwyd ar gyfer y fframwaith hwn, yn debygol o ddibynnu ar is-grwpiau sy'n cynnwys niferoedd cymharol fach o bobl. Gall dangosyddion a gyfrifir o nifer gymharol fach o bobl arwain at newidiadau anwadal o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r anwadalrwydd hwn yn cael ei gydnabod yn briodol mewn unrhyw ddadansoddiad a gyhoeddir yn y dyfodol. Hefyd, mae risg gyda chyfrifiadau bach iawn sef y gellid o bosibl adnabod unigolion. Bydd y cyfrifiadau hyn yn cael eu hatal yn rheolaidd yn unol â chanllawiau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar reoli datgelu (Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, 2014) i sicrhau nad yw unigolion yn cael eu hadnabod.

# 3.0 Fframwaith dangosydd yn ôl pennod

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r mesurau a nodwyd ar gyfer pob pennod ArWAP. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau penodol i bennod a mesurau cyffredin, wedi'u halinio â'r themâu cyffredin a phenodol i bennod a ddisgrifir yn 2.1-2.3. Mae'r tablau wedi'u trefnu'n bum colofn: 'thema gyffredin', 'cam gweithredu', 'canlyniad', 'mesur' a 'ffynhonnell'.

Y 'Maes Mesur' yw'r categori lefel uchel y mae'r mesur yn eistedd ynddo. Nodwyd y rhain yn fanylach yn adran 2.2 uchod. Mae'r golofn 'cam gweithredu' a’r golofn 'canlyniad' yn cyfeirio at y weithred ArWAP benodol a'r canlyniad cysylltiedig y mae'r maes mesur yn ymwneud ag ef (fel y nodir yn 2.1 cymerir y camau gweithredu a'r canlyniadau hyn o benodau technegol ArWAP). Mae'r golofn 'mesur' yn cynnwys enw technegol y mesur a nodwyd ar gyfer y canlyniad penodol hwnnw. Yn olaf, mae'r golofn 'ffynhonnell' yn nodi o ble mae'r mesur hwnnw'n dod e.e. y set ddata gyhoeddedig, neu'r arolwg.

## 3.1 Arweinyddiaeth (Arwain)

Mae pennod Arweinyddiaeth ArWAP yn nodi gweledigaeth lle mae Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau cyhoeddus y mae'n eu hariannu yn wrth-hiliol, gyda diwylliant o ddim goddefgarwch o hiliaeth ledled y sector cyhoeddus. Mae'r camau gweithredu a'r

[2] er mwyn cyflawni dadansoddiad ystadegol gadarn, neu er mwyn osgoi problemau rheoli datgeliadau.

canlyniadau yn y bennod hon yn cwmpasu dyhead Llywodraeth Cymru i fod yn wrth-hiliol, a'i chyfrifoldeb arweinyddiaeth am wrth-hiliaeth ar draws y sector cyhoeddus ehangach, gan hyrwyddo diwylliant o amrywiaeth a chynhwysiant.

### 3.1.1 Mesurau arweinyddiaeth

*Tabl 3: Mesurau arweinyddiaeth cyffredin*

**Mesurau cyffredin**

| Thema gyffredin | Cam gweithredu | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Arwain 1: Llywodraeth Cymru fel cyflogwr | Mae staff a chynghreiriaid lleiafrifoedd ethnig yn teimlo'n fwy hyderus wrth adrodd am achosion o hiliaeth a'r camau a gymerir | Sgôr thema cynhwysiant a thriniaeth deg | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Arwain 1: Llywodraeth Cymru fel cyflogwr | Mae staff a chynghreiriaid lleiafrifoedd ethnig yn teimlo'n fwy hyderus wrth adrodd am achosion o hiliaeth a'r camau a gymerir | Canran y staff o leiafrifoedd ethnig sy'n cytuno â'r cwestiwn: Yn ystod y 12 mis diwethaf ydych chi'n bersonol wedi profi bwlio neu aflonyddu. | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Arwain 1: Llywodraeth Cymru fel cyflogwr | Mae staff a chynghreiriaid lleiafrifoedd ethnig yn teimlo'n fwy hyderus wrth adrodd am | Canran y staff o leiafrifoedd ethnig sy'n cytuno â'r cwestiwn: Yn ystod y 12 mis diwethaf | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | achosion o hiliaeth a'r camau a gymerir | ydych chi'n bersonol wedi profi gwahaniaethu yn y gwaith. | |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Arwain 8:<br><br>Gwerthuso'r ddarpariaeth o hyfforddiant gwrth-hiliaeth gyfredol<br><br>Datblygu strategaeth Dysgu a Datblygu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ysgogi newid ymddygiad, gan gynnwys cynefino ar gyfer recriwtiaid newydd ac opsiynau ar gyfer hyfforddiant gorfodol<br><br>Datblygu hyfforddiant a datblygiad pwrpasol ar gyfer uwch dimau arweinyddiaeth, timau polisi, aelodau Grŵp Atebolrwydd Allanol, aelodau Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol | Cyfleoedd dysgu a datblygu wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion dysgu grwpiau penodol, gan alluogi newid ymddygiad mwy effeithiol | Canran y staff o leiafrifoedd ethnig sy'n cytuno â'r datganiad: Mae cyfleoedd i ddatblygu fy ngyrfa yn y sefydliad. | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | (MESN), a'r proffesiwn AD | | | |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Arwain 2:<br><br>Targed recriwtio: 20% o'r holl ymgeiswyr llwyddiannus a recriwtiwyd yn allanol i fod o gefndir lleiafrifoedd ethnig<br><br>Mae staff lleiafrifoedd ethnig yn llwyddiannus mewn dyrchafiad ar lefel sy'n fwy na'u cyfran boblogaeth sefydliadol | Arferion recriwtio ac asesu mwy cynhwysol<br><br>Data recriwtio o ansawdd gwell i lywio arferion cynhwysol | Gweithwyr Llywodraeth Cymru yn ôl ethnigrwydd. | Systemau Rheoli Mewnol Llywodraeth Cymru |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Arwain 2:<br><br>Targed recriwtio: 20% o'r holl ymgeiswyr llwyddiannus a recriwtiwyd yn allanol i fod o gefndir lleiafrifoedd ethnig<br><br>Mae staff lleiafrifoedd ethnig yn llwyddiannus | Arferion recriwtio ac asesu mwy cynhwysol<br><br>Data recriwtio o ansawdd gwell i lywio arferion cynhwysol | Canran o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a gafodd eu recriwtio neu eu dyrchafu. | Cyfrifon blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | mewn dyrchafiad ar lefel sy'n fwy na'u cyfran boblogaeth sefydliadol | | | |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Arwain 22: Cefnogi Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol | Mae arferion recriwtio yn wrth-hiliol<br><br>Mae mesurau gweithredu cadarnhaol yn cael eu deall a'u defnyddio'n effeithiol | Canran yr ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig ym mhob cam o'r broses benodiadau cyhoeddus. | Penodiadau cyhoeddus |
| **Mynediad at wasanaethau** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |

## Mesurau penodol i bennod

*Tabl 4 Mesurau arweinyddiaeth penodol*

| Thema benodol i bennod | Cam gweithredu | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Aeddfedrwydd diwylliannol | Arwain 7: Llywodraeth Cymru fel cyflogwr | Mae uwch weision sifil yn dangos eu hymrwymiad i wrth-hiliaeth, gan feithrin diwylliant o wrth-hiliaeth ar draws y sefydliad | Sgôr arweinyddiaeth a rheoli newid | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil |
| Aeddfedrwydd diwylliannol | Arwain 15:<br><br>Rhannu yr hyn a ddysgwyd o adnoddau a hyfforddiant gwrth-hiliaeth a ddatblygwyd<br><br>Cydweithio ar raglen o hyfforddiant a datblygu arweinyddiaeth ar gyfer uwch arweinwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus | Uwch arweinwyr yn cael cynnig hyfforddiant a datblygiad gwrth-hiliaeth o ansawdd uchel, gan arwain at well ymwybyddiaeth a dealltwriaeth | Canran y bobl sy'n cytuno â'r datganiad:<br><br>Rwy'n credu bod gweithredoedd uwch reolwyr yn gyson â gwerthoedd y sefydliad | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil |
| Aeddfedrwydd diwylliannol | Arwain 1: Llywodraeth Cymru fel cyflogwr | Sefydlu data gwaelodlin (gan gynnwys arolwg yr holl staff). Matrics aeddfedrwydd wedi'i gyd-gynhyrchu i fesur ein haeddfedrwydd diwylliannol dros y 3 blynedd nesaf. | Canran y staff o leiafrifoedd ethnig sy'n cytuno â'r datganiad: "Rwy'n credu bod y sefydliad yn parchu gwahaniaethau unigol". | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Aeddfedrwydd diwylliannol | Arwain 1: Llywodraeth Cymru fel cyflogwr | Sefydlu data gwaelodlin (gan gynnwys arolwg yr holl staff). Matrics aeddfedrwydd wedi'i gyd-gynhyrchu i fesur ein haeddfedrwydd diwylliannol dros y 3 blynedd nesaf. | Mynegai ymgysylltu o'r Arolwg Pobl | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil |

### 3.1.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data:

Mae'r mesurau yn y bennod arweinyddiaeth yn cael eu cynhyrchu o bum ffynhonnell ddata: Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, data gweithwyr mewnol Llywodraeth Cymru, data penodiadau cyhoeddus mewnol, Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru a Phorwr Data Ystadegau Gwasanaeth Sifil Swyddfa'r Cabinet.

Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn arolwg blynyddol dienw sy'n cwmpasu gweision sifil ledled y DU, gan gynnwys y rhai yn Llywodraeth Cymru.

Mae data penodiadau cyhoeddus mewnol yn cwmpasu pob ymarfer recriwtio, mae'r data yn cyfrif ceisiadau yn hytrach nag unigolion unigryw ac mae'n cynnwys penodiadau a wneir mewn cyrff cyhoeddus a reoleiddir yn unig[3],

Mae Porwr Data Ystadegau Gwasanaeth Sifil Swyddfa'r Cabinet yn dangos cyfran fras staff lleiafrifoedd ethnig yn ôl gradd a statws cyflogaeth ar draws adrannau. Mewn data cyhoeddedig, mae cyfrif pennau yn cael ei dalgrynnu i'r pump agosaf ac mae unrhyw gell gyda llai na phum aelod o staff yn cael ei guddio i ddiogelu preifatrwydd.

Un cyfyngiad yw bod y data ar hyn o bryd yn cwmpasu Llywodraeth Cymru yn unig, felly nid yw'n rhoi darlun llawn o amrywiaeth yn y sector cyhoeddus ehangach. Gall y ffocws cul hwn fethu â nodi gwahaniaethau pwysig y tu allan i Lywodraeth Cymru.

Er mwyn datrys y materion hyn, bydd yn bwysig cynnwys data o'r sector cyhoeddus ehangach yn y dyfodol. Byddai hyn yn darparu darlun cyflawn o amrywiaeth arweinyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

[3] Cofrestr o gyrff cyhoeddus datganoledig | LLYW. CYMRU

## 3.2 Addysg a'r Gymraeg (E&WL)

Mae pennod Addysg yr ArWAP yn nodi camau gweithredu a chanlyniadau sydd â’r nod o sicrhau y dylai dysgwyr a staff o bob ethnigrwydd gael cyfle i gyflawni eu potensial llawn a bod yn rhan o ddiwylliant gwrth-hiliol.

Ar gyfer y Gymraeg, mae'r cynllun yn nodi camau gweithredu i hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Nod y dull hwn yw sicrhau bod gan bawb, ni waeth beth fo'u cefndir, fynediad at addysg o safon, lleoliadau addysg gwrth-hiliol a’u bod yn gallu ymgysylltu â'r iaith a'r diwylliant Cymraeg

### 3.2.1 Mesurau Addysg a'r Gymraeg

*Tabl 5: Mesurau addysg a'r Gymraeg cyffredin*

**Mesurau cyffredin**

| Thema gyffredin | Cam gweithredu | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Llesiant** | Bydd data mewn perthynas â phlant yn cael ei ystyried ar gyfer cynhyrchu dangosyddion ychwanegol mewn diweddariadau o'r fframwaith mesur yn y dyfodol | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Amh.- Mesur cyffredin nad yw'n berthnasol i'r bennod hon; dim nodau, na chanlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Bydd data mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn cael ei | Amh. | Amh. | Amh. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ystyried ar gyfer cynhyrchu dangosyddion ychwanegol mewn diweddariadau o'r fframwaith mesur yn y dyfodol. | | | |
| **Mynediad at wasanaethau** | Amh.- Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |

**Mesurau penodol i bennod**

*Tabl 6 Mesurau addysg a'r Gymraeg penodol*

| Thema benodol i bennod | Cam gweithredu | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Absenoldeb** | E&WL 4: Darparu adnoddau llesiant pwrpasol i ysgolion sy'n canolbwyntio ar anghenion y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. | Lefelau uwch o lesiant ymhlith dysgwyr lleiafrifoedd ethnig a'u teuluoedd gyda dysgwyr yn gallu ymgysylltu â'u haddysg yn well. | Canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd/a fethwyd.<br><br>Canran y sesiynau hanner diwrnod a fethwyd oherwydd absenoldeb awdurdodedig/a nawdurdodedig (dangosydd dirprwyol) | CYBLD |
| **Cyrhaeddiad addysgol,** | E&WL 5: Cymryd camau i sicrhau bod | Gostyngiad yn nifer y | Cyfraddau gwahardd (fesul | CYBLD |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **gwaharddiadau ac absenoldeb** | gwaharddiadau'n cael eu defnyddio mewn ffordd nad yw'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol | gwaharddiadau yn gyffredinol ac yn benodol yn y cyfraddau gwaharddiadau ar gyfer y grwpiau hynny o blant sydd wedi'u gwahardd yn anghymesur | 1,000 o ddisgyblion) yn ôl ethnigrwydd. | |
| **Cyrhaeddiad addysgol** | E&WL 4: Sicrhau llesiant dysgwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | Lefelau uwch o lesiant ymhlith dysgwyr lleiafrifoedd ethnig a'u teuluoedd gyda dysgwyr sy'n gallu ymgysylltu â'u haddysg yn well. | Sgôr 9 pwynt ar gyfartaledd o ddisgyblion, yn ôl ethnigrwydd gyda mesurau cyrhaeddiad ychwanegol yn ôl ethnigrwydd | CYBLD |
| **Siaradwyr Cymraeg** | E&WL 41: Bod lleisiau siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt a bod mwy yn cael ei wneud i hyrwyddo mynediad i'r Gymraeg gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig ym meysydd addysg, dysgu ieithoedd, y gweithle a | Mwy o oedolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru yn cael mynediad at ddarpariaeth y Ganolfan Dysgu'r Gymraeg | Cyfradd y dysgwyr unigryw o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Dysgu Cymraeg fesul 10,000 o bobl. | Data Dysgu Cymraeg a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gweithgareddau cymunedol. | Genedlaethol | | |
| **Siaradwyr Cymraeg** | E&WL 42: Bod lleisiau siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt a bod mwy yn cael ei wneud i hyrwyddo mynediad i'r Gymraeg gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig ym meysydd addysg, dysgu ieithoedd, y gweithle a gweithgareddau cymunedol. | Bydd yr ymdeimlad cynyddol o berthyn a chynrychiolaeth yn arwain at fwy o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn ystyried addysg cyfrwng Cymraeg fel opsiwn ar gyfer addysg eu plant. | Canran y plant oedran ysgol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd wedi cofrestru mewn addysg cyfrwng Cymraeg. | CYBLD |

### 3.2.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data

Mae'r bennod Addysg a'r Gymraeg yn defnyddio data o bedair ffynhonnell: y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Cronfa Ddata Arholiadau Cymraeg sy'n gysylltiedig â CYBLD, a data dysgwyr ar gyfer cyrsiau Dysgu Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2024a t.31).

Mae CYBLD yn gyfrifiad blynyddol llawn o ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig), sy'n casglu data ar gofrestru, nodweddion disgyblion, darpariaeth cyfrwng iaith, cymhwysedd prydau ysgol am ddim, anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig, maint dosbarthiadau, athrawon a staff cymorth, a gwaharddiadau (Llywodraeth Cymru, n.d.).

Cyflwynwyd y mesur sgôr 9 pwynt wedi'i gapio yn 2018/19 ac mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau disgyblion Blwyddyn 11 o uchafswm o naw o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion pwnc-benodol. Mae'n defnyddio cwmpas ysgol gyfan o Gronfa Ddata Arholiadau Cymru. Mae'n fesur interim a bydd yn destun datblygiad yn y dyfodol. Felly, dylid gwneud cymariaethau hirdymor dros amser yn ofalus. Mae sgoriau academaidd hefyd yn adlewyrchu ffactorau y tu hwnt i addysgu yn yr ystafell ddosbarth fel cefndir economaidd-gymdeithasol, hyfedredd iaith ac iechyd. Ni chyhoeddwyd unrhyw fesurau perfformiad swyddogol ar gyfer 2019/20–2021/22 oherwydd pandemig COVID-19.

Yn 2022 dychwelodd arholiadau'n rhannol i fformat ysgrifenedig, gyda'r graddau wedi'u gosod hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a 2021 (Llywodraeth Cymru, 2024a t.31).

Cyn 2017/18, roedd y grwpiau ethnig Sipsiwn a Sipsiwn-Roma wedi'u grwpio gyda'i gilydd mewn allbynnau ystadegol CYBLD. Fodd bynnag, o 2017/18 ymlaen, mae'r grwpiau ethnig hyn wedi cael eu hadrodd ar wahân (Llywodraeth Cymru, n.d.a.). Mae'r dangosyddion yn y bennod Addysg a'r Gymraeg wedi'u llunio o ddata CYBLD cyhoeddedig ac felly'n adlewyrchu'r newid cam hwn yn y gyfres amser.

## 3.3 Diwylliant, treftadaeth a chwaraeon (CH&S)

Mae'r camau gweithredu a'r canlyniadau o fewn pennod diwylliant, treftadaeth a chwaraeon ArWAP yn canolbwyntio ar ddarparu mynediad cyfartal a chyfranogiad mewn pob math o weithgareddau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon (Llywodraeth Cymru, 2024a, t.54). Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ystod eang o gyrff diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon i ddarparu polisïau a gwasanaethau i bobl Cymru ar lefel leol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyrff a ariennir yn gyhoeddus ac a noddir sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, ac y disgwylir iddynt gymryd rhan, yn gymesur, tuag at gyflawni camau gweithredu ArWAP yn y bennod hon.

### 3.3.1 Mesurau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon

*Tabl 7: Mesurau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon cyffredin*

**Mesurau cyffredin**

| Thema gyffredin | Nod | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Llesiant** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r | Amh. | Amh. | Amh. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | | | |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Mynediad at wasanaethau** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |

## Mesurau penodol i bennod

*Tabl 8 Mesurau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon penodol*

| Thema benodol i bennod | Cam gweithredu | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon** | CH&S 10: Gweithio gyda'n cyrff noddedig i sicrhau eu bod yn defnyddio eu | Mwy o gyfleoedd i fenywod a merched Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gymryd | Canran y Menywod o leiafrifoedd ethnig sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos. | NWI[4] 38 Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair |

[4] NWI (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | pwerau gwario i ymgorffori arferion gwrth-hiliol, hwyluso cydraddoldeb mynediad a chanlyniadau, a gwneud y mwyaf o gyfranogiad ar gyfer pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | rhan ar lawr gwlad mewn chwaraeon sy'n berthnasol i'w hanghenion | | gwaith neu fwy yr wythnos.<br><br>Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| **Cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon** | CH&S 10: Gweithio gyda'n cyrff noddedig i sicrhau eu bod yn defnyddio eu pwerau gwario i ymgorffori arferion gwrth-hiliol, hwyluso cydraddoldeb mynediad a chanlyniadau, a gwneud y mwyaf o gyfranogiad ar gyfer pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | Mwy o gyfleoedd i fenywod a merched Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gymryd rhan ar lawr gwlad mewn chwaraeon sy'n berthnasol i'w hanghenion | Canran y merched o leiafrifol ethnig sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos. | NWI 38 Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos.<br><br>Adroddiad Arolwg Ysgolion |
| **Cyfranogiad mewn gweithgareddau** | CH&S 9: Gweithio gyda'n cyrff | Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan a | Canran y bobl sy'n mynychu digwyddiad | NWI 35 Canran y bobl sy'n mynychu neu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon** | noddedig i sicrhau eu bod yn defnyddio eu pwerau gwario i ymgorffori arferion gwrth-hiliol, hwyluso cydraddoldeb mynediad a chanlyniadau, a gwneud y mwyaf o gyfranogiad ar gyfer pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | chychwyn mentrau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon sy'n diwallu anghenion a dyheadau grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar lawr gwlad | celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn | sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn.<br><br>Arolwg Cenedlaethol Cymru |

### 3.3.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data

Mae'r dirwedd ddata ar gyfer pennod diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yr ArWAP yn gymhleth oherwydd ei ehangder a'r nifer fawr o sefydliadau sy'n cymryd rhan. Mae amrywiaeth endidau o fewn y sector yn golygu y gall dulliau a safonau casglu data fod yn wahanol iawn, gan arwain at anghysondebau a bylchau yn y data sydd ar gael, boed hynny'n ddata ar y gweithlu yn y sector, neu ddata ar gyfranogiad a phresenoldeb mewn gweithgareddau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon.

Mae'r mesurau yn y bennod diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn cael eu llunio o ddwy ffynhonnell ddata: Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolwg Chwaraeon Ysgolion Cymru. Mae'r ffynonellau hyn wedi'u dewis oherwydd eu bod ar lefel uchel iawn ar gyfer nodau'r fframwaith dangosyddion hwn, gan osgoi'r mater o angen cysoni gwahanol ffynonellau data a gynhyrchir gan sefydliadau lluosog, ac maent yn gadarn; maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ategu Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol presennol.

Mae cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n ymwneud â diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn sail i nifer o Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol. Felly, rhagwelir y bydd y cwestiynau hyn yn cael eu cynnwys mewn fersiynau yn y dyfodol o Arolwg Cenedlaethol Cymru ac felly byddant yn bodloni gofyniad Fframwaith Dangosyddion ArWAP ar gyfer cysondeb ffynonellau dangosyddion dros amser. Fodd bynnag, mae'r maint sampl yn cyfyngu ar y graddau y gellir cynnal dadansoddiad croestoriadol yn ôl ethnigrwydd a rhyw,

yn enwedig ar gyfer menywod lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn cyflwyno heriau i olrhain tueddiadau cyfranogiad dros amser.

Mae Arolwg Chwaraeon Ysgolion Cymru yn rhoi mwy o fanylion ar ethnigrwydd ac yn sail i ddangosydd cenedlaethol, ond mae'n cael ei gynnal bob ychydig flynyddoedd yn hytrach nag yn flynyddol. Mae hyn yn cyfyngu ar ei ddefnyddioldeb ar gyfer cymariaethau o un flwyddyn i'r llall, er ei fod yn cynnig dadansoddiadau mwy manwl pan fydd maint y sampl yn caniatáu.

## 3.4 Iechyd (HLTH)

Mae'r bennod hon yn yr ArWAP yn nodi camau gweithredu a chanlyniadau sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a brofir gan bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru a'i nod yw sicrhau bod pob dinesydd yn cael mynediad at wasanaethau sy'n briodol i'w hanghenion, heb ofni hiliaeth. Mae'r camau gweithredu a'r canlyniadau yn y bennod Iechyd yn canolbwyntio'n helaeth ar y gweithlu; sicrhau bod staff yn y sector yn gallu gweithio mewn amgylcheddau diogel, cynhwysol, gydag arweinyddiaeth wrth-hiliol ac yn hyderus o ran cefnogaeth a chyfleoedd i gyflawni eu potensial. Mae'r bennod yn esbonio y rhagwelir y bydd y ffocws hwn ar gamau gweithredu a chanlyniadau ar gyfer y gweithlu iechyd yn ysgogi gwelliannau gwrth-hiliol mewn gwasanaethau iechyd a dderbynnir gan ddinasyddion yng Nghymru.

### 3.4.1 Mesurau iechyd

*Tabl 9: Mesurau iechyd cyffredin*

**Mesurau cyffredin**

| Thema gyffredin | Nod | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Llesiant** | Nod: bydd y GIG yng Nghymru yn wrth-hiliol ac ni fydd yn derbyn unrhyw fath o wahaniaethu neu anghydraddoldeb i weithwyr na defnyddwyr gwasanaethau | Bod gan bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fwy o fynediad teg at wasanaethau gofal iechyd | Iechyd cyffredinol hunanadrodd ymhlith ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru | Arolwg Cenedlaethol Cymru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mynediad at wasanaethau** | HLTH 13: Byddwn yn nodi ac yn chwalu rhwystrau sy'n atal mynediad cyfartal at wasanaethau gofal iechyd i bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | Bod gan bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fwy o fynediad teg at wasanaethau gofal iechyd | Boddhad cyfartalog â chyflwr gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn ôl ethnigrwydd | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | HLTH 5: Bydd staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel, cynhwysol, wedi'u hadeiladu ar arweinyddiaeth a chynghreiriaeth wrth-hiliol dda, gan rymuso staff a chynghreiriaid lleiafrifoedd ethnig i nodi a mynd i'r afael ag arferion hiliol. | Bod gan staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fwy o hyder y byddant yn gweithio mewn gweithle diogel a chynhwysol sy'n cydnabod ac yn hyrwyddo eu perfformiad a'u dilyniant. | Cynrychiolaeth ethnig yn yr agenda ar gyfer bandiau newid 1-9 ac uwch swyddi gweithredol yn erbyn gweithlu cyffredinol.[5] | Dangosydd 1 [6] Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES)<br><br>Dangosydd 2 [7] (WRES)<br><br>Adroddiad cenedlaethol 2024 - GIG Cymru |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | HLTH 5: Bydd staff yn gweithio mewn amgylcheddau | Mae gan staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fwy o | Canran y staff sy'n adrodd am aflonyddu, bwlio neu gam-drin yn ôl | Dangosyddion WRES: 10[8], 11[9], 12[10] |

[5] Mae bandiau 1-9 Agenda ar gyfer Newid yn cyfeirio at y system raddio cyflog a ddefnyddir ar gyfer y rhan fwyaf o staff y GIG yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (ac eithrio meddygon, deintyddion a rhai uwch reolwyr). Mae'r bandiau'n amrywio o Fand 1 (y cyflog isaf) i Band 9 (yr uchaf ar gyfer rolau anfeddygol), gan adlewyrchu lefelau cynyddol o gyfrifoldeb, sgiliau a phrofiad sy'n ofynnol ar gyfer pob rôl.

[6] Gwahaniaeth canrannol yn ôl ethnigrwydd rhwng swyddogion gweithredol y Bwrdd ac aelodaeth anweithredol y sefydliad a'i weithlu cyffredinol.

[7] Canran y staff yn ôl ethnigrwydd sy'n credu bod eu sefydliad yn darparu cyfleoedd cyfartal ar gyfer dilyniant gyrfa neu ddyrchafiad.

[8] Canran y staff Du, Asiaidd neu Lleiafrifoedd Ethnig sy'n profi aflonyddu, bwlio neu gam-drin gan gleifion, perthnasau neu'r cyhoedd yn ystod y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â'u cydweithwyr Gwyn

[9] Canran y staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n profi aflonyddu, bwlio neu gam-drin gan aelodau staff eraill yn y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â'u cydweithwyr Gwyn

[10] Canran y staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n profi aflonyddu, bwlio neu gam-drin gan gydweithwyr yn y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â'u cydweithwyr Gwyn

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | diogel, cynhwysol, wedi'u hadeiladu ar arweinyddiaeth a chynghreiriaeth wrth-hiliol dda, gan rymuso staff a chynghreiriaid lleiafrifoedd ethnig i nodi a mynd i'r afael ag arferion hiliol. | hyder y byddant yn gweithio mewn gweithle diogel a chynhwysol sy'n cydnabod ac yn hyrwyddo eu perfformiad a'u dilyniant. | grŵp ethnig, sefydliad y GIG, a rhyw. | Adroddiad Cenedlaethol 2024 - GIG Cymru |

**Themâu penodol i bennod**

*Tabl 10 Mesurau iechyd penodol*

| Thema benodol i bennod | Cam gweithredu | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Iechyd mamau** | HLTH 12: Byddwn yn nodi ac yn chwalu rhwystrau sy'n atal mynediad cyfartal at wasanaethau gofal iechyd i bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | Mae casglu a dadansoddi data ethnigrwydd yn effeithiol yn caniatáu ymyraethau a gwelliannau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar gyfer cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth. | Boddhad cyffredinol â gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, yn ôl ethnigrwydd | Holiadur Mesur Profiad a Adroddir gan Glaf craidd (PREM) GIG Cymru |
| **Iechyd meddwl** | HLTH 14: Bydd pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn hyderus bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r | Mwy o ddarpariaeth a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i bobl Dduon, Asiaidd a | Sgôr llesiant meddyliol cymedrig, yn ôl ethnigrwydd | NWI 29 Sgôr llesiant meddyliol cymedrig i bobl. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | afael ag anghydraddoldebau iechyd ac mae eu llais yn cael ei glywed wrth lunio penderfyniadau sy'n effeithio arnynt | Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. | Warwick-Edinburgh[11].<br>Dadansoddiad oedolion a phlant | Llesiant meddyliol oedolion - Arolwg Cenedlaethol<br>Llesiant meddyliol plant - Dangosfwrdd Data SHRN - Iechyd Cyhoeddus Cymru |

### 3.4.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data

Mae'r mesurau yn y bennod Iechyd yn cael eu llunio o dair ffynhonnell ddata: Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW) (Llywodraeth Cymru, n.d.b), Safonau Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (SCHG) (GIG Cymru, n.d.) Adroddiad Cenedlaethol a'r holiadur Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion Cenedlaethol a Lleol (PREM) ar gyfer gwasanaethau mamolaeth (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, 2023).

Mae pob ffynhonnell yn y bennod hon yn rhannu cyfyngiadau ystadegol tebyg. Mae ethnigrwydd wedi'i hunanadrodd ac weithiau heb ei ddatgan, gan arwain at feintiau sampl bach ar gyfer llawer o grwpiau lleiafrifol ac ysbeidiau hyder eang wrth weithio gyda'r data. Yn gyffredinol, bydd hyn yn cyfyngu dadansoddiad i ddau gategori eang yn unig, Gwyn a Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n cuddio gwahaniaethau is-grŵp pwysig. Mae hyd yn oed y dangosyddion SCHG, sy'n defnyddio pedwar categori (Gwyn, Du, Asiaidd neu Arall), yn cuddio amrywiad sylweddol o fewn grwpiau. Dim ond blwyddyn o ddata gweithlu SCHG sydd ar gael ar hyn o bryd, felly nid yw dadansoddiad tueddiadau yn bosibl eto ond bydd yn bosibl yn y dyfodol.

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW), dim ond ymatebwyr a fynychodd yr ysbyty yn ystod y cyfnod cyfeirio all ateb y cwestiynau ar foddhad. Mae patrymau presenoldeb yn amrywio yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd ac ethnigrwydd, felly gall gwahaniaethau mewn canrannau 'bodlon' adlewyrchu pwy sy'n mynychu yn hytrach na sut mae cleifion yn cael eu trin. Mae newid yr NSW yn 2020–21 o gyfweliadau wyneb yn wyneb i ffôn neu ar-lein, ynghyd â newidiadau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r pandemig, yn tarfu ar gymhariaeth dros

[11] Mae'r sgôr llesiant meddyliol cymedrig Warwick-Edinburgh yn mesur llesiant meddyliol cyfartalog mewn grŵp, gan ganiatáu cymharu yn ôl ethnigrwydd. Mae angen bod yn ofalus gan fod ethnigrwydd wedi'i hunanadrodd ac mae maint samplau ar gyfer grwpiau lleiafrifol yn aml yn fach, felly efallai na fydd y canlyniadau yn gwbl gynrychioliadol nac yn fanwl gywir.

flynyddoedd. Ni ofynnwyd y cwestiwn boddhad allweddol yn arolwg 2022–23, ac efallai y bydd diwygiadau holiadur yn y dyfodol yn ei newid ymhellach neu'n ei ollwng. Mae boddhad yn gynhenid oddrychol a gall gael ei ddylanwadu gan ddisgwyliadau, sylw yn y cyfryngau neu brofiadau diweddar, pob un ohonynt yn cyflwyno tuedd.

Mae data ethnigrwydd ar lefel bwrdd Adroddiad Cenedlaethol SCHG yn cwmpasu grwpiau bach o swyddogion gweithredol ac anweithredol. Gyda byrddau yn aml yn cynnwys llai nag ugain aelod, gall un ymddiswyddiad neu benodiad newid canrannau cynrychiolaeth yn sylweddol. Mae'r nifer sy'n peidio â datgan ethnigrwydd yn uchel ymhlith aelodau'r bwrdd (25.2%) a hyd yn oed yn uwch ymhlith pobl nad ydynt yn weithredol, gan guddio tangynrychiolaeth o bosibl.

Mae data gweithlu SCHG yn cymharu'r gymhareb anghyfartaledd o gynrychiolaeth ethnig-lleiafrifoedd ym mandiau 1–9[12] Agenda ar gyfer Newid ac mewn uwch swyddi gweithredol â'r gweithlu cyffredinol. Oherwydd bod datganiad ethnigrwydd yn wirfoddol ac mae llawer o staff yn dewis peidio â datgelu, gall cyfrif bach, yn enwedig mewn graddau uwch, gynhyrchu cymarebau ansefydlog. Gall newidiadau yng nghyfansoddiad cyffredinol y gweithlu hefyd ystumio cymarebau penodol i fand hyd yn oed os yw'r niferoedd absoliwt yn aros yn ddigyfnewid.

Mae mesur bwlio ac aflonyddu WRES yn seiliedig ar ymatebion arolwg hunanadrodd. Efallai y bydd rhai staff yn oedi cyn datgelu camdriniaeth, gydag eraill yn adrodd yn rhwyddach yn dibynnu ar gydnerthedd personol neu brofiadau yn y gorffennol. Mae cyfraddau ymateb isel mewn rhai is-grwpiau ethnig yn cynhyrchu canrannau anwadal, gan wneud cymariaethau o un flwyddyn i'r llall yn ansefydlog. Ar ben hynny, gall y categorïau ffynhonnell (cleifion, cydweithwyr a rheolwyr) orgyffwrdd. Er enghraifft, gall sylw ymosodol gynnwys claf a rheolwr, felly gall priodoli fod yn amherffaith.

Mae'r holiadur mamolaeth PREM Cenedlaethol a Lleol yn gofyn i fenywod raddio eu profiad cyffredinol o ofal. Mewn lleoliad mamolaeth, gall boddhad gael ei lunio gan ffactorau personol iawn sy'n amrywio'n fawr rhwng unigolion. Gall cyfraddau ymateb ymhlith menywod lleiafrifoedd ethnig hefyd fod yn is, ac efallai y bydd rhai yn llai parod i adrodd profiadau negyddol, gan arwain at duedd bosibl o beidio ag ymateb. Wrth i gwestiynau a dulliau gweinyddu esblygu, dylid trin cymhariaeth dros amser yn ofalus.

## 3.5 Gofal cymdeithasol (SoCa)

Fel gyda phennod Iechyd ArWAP, nod y camau gweithredu a'r canlyniadau o fewn y bennod Gofal Cymdeithasol yw sicrhau bod arferion gwrth-hiliol wedi'u hymgorffori ledled y gweithlu gofal cymdeithasol a'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys yr hyn y

[12] Mae bandiau 1-9 Agenda ar gyfer newid yn cyfeirio at y system raddio cyflog a ddefnyddir ar gyfer y rhan fwyaf o staff y GIG yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (ac eithrio meddygon, deintyddion a rhai uwch reolwyr). Mae'r bandiau'n amrywio o Fand 1 (y cyflog isaf) i Band 9 (yr uchaf ar gyfer rolau anfeddygol), gan adlewyrchu lefelau cynyddol o gyfrifoldeb, sgiliau a phrofiad sy'n ofynnol ar gyfer pob rôl.

gall Llywodraeth Cymru a'u partneriaid statudol, preifat a'r trydydd sector ei wneud i oedolion a phlant sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u teuluoedd: gwella mynediad at wasanaethau a phrofiad o wasanaethau, trwy lens wrth-hiliol. Yn ail, yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i'r gweithlu gofal cymdeithasol, a beth yw'r disgwyliadau o ran gwella ymarfer a'u profiad, unwaith eto trwy lens wrth-hiliol.

### 3.5.1 Mesurau gofal cymdeithasol

*Tabl 11: Mesurau gofal cymdeithasol cyffredin*

**Mesurau Cyffredin**

| Thema gyffredin | Nod | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Mynediad at wasanaethau** | SoCa 27: Gwella data ansoddol a meintiol, ymchwil, tystiolaeth, dadansoddi, deallusrwydd a dealltwriaeth; gan gynnwys cynnydd sylweddol yn y data profiad bywyd a gasglwyd gan bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i fynd i'r afael â bylchau data presennol a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r holl Nodau a Chamau Gweithredu gofal cymdeithasol. | Gwell darpariaeth gwasanaeth ar gyfer pobl Dduon, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig | Plant sy'n derbyn gofal a chymorth fesul 100,000 o blant yn ôl ethnigrwydd a gofal a statws gofal.<br>Wedi'i lunio o'r dangosyddion canlynol:<br>• Cyfradd pob plentyn mewn gofal<br>• Cyfradd plant sy'n derbyn gofal<br>• Plant ar y gofrestr amddiffyn plant ond nad ydynt yn derbyn gofal<br>• Plant sy'n cael gofal ond nid yn blant sy'n derbyn gofal ac nad ydynt ar y gofrestr amddiffyn plant. | Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llesiant** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | SoCa 19: Sicrhau na fydd pobl o leiafrifoedd ethnig sy'n chwilio am yrfa neu rôl o fewn gofal cymdeithasol yng Nghymru yn profi unrhyw rwystrau rhag cyflogaeth. Byddant yn cael mynediad at hyfforddiant o ansawdd uchel trwy gydol eu gyrfa, yn teimlo'n ddiogel yn eu gweithle, ac yn llawn hyder yn eu harweinyddiaeth i weithredu polisi dim goddefgarwch o hiliaeth nac unrhyw fath arall o wahaniaethu neu anghydraddoldeb. | Mae gan bobl hyder i godi cwynion a hyder y byddant yn cael eu datrys os byddant yn profi hiliaeth gan bobl eraill sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol | Canran y gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n adrodd am fwlio, gwahaniaethu neu aflonyddu yn ôl ethnigrwydd a ffynhonnell. | Dangosyddion SCHG Gofal Cymdeithasol 8[13],9[14],10[15] |

[13] canran y gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n adrodd am fwlio, gwahaniaethu neu aflonyddu gan unigolyn neu deulu.
[14] y ganran sy'n adrodd am fwlio, gwahaniaethu neu aflonyddu gan gydweithwyr.

[15] y ganran sy'n adrodd am fwlio, gwahaniaethu neu aflonyddu gan reolwyr

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | SoCa 12: Sicrhau na fydd pobl o leiafrifoedd ethnig sy'n chwilio am yrfa neu rôl o fewn gofal cymdeithasol yng Nghymru yn profi unrhyw rwystrau rhag cyflogaeth. Byddant yn cael mynediad at hyfforddiant o ansawdd uchel trwy gydol eu gyrfa, yn teimlo'n ddiogel yn eu gweithle, ac yn llawn hyder yn eu harweinyddiaeth i weithredu polisi dim goddefgarwch o hiliaeth nac unrhyw fath arall o wahaniaethu neu anghydraddoldeb | Datblygwyd prosesau a pholisïau gwell yn unol ag egwyddorion ac arferion gwrth-hiliol sy'n arwain at fwy o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn swyddi uwch a gwelliant o ran cadw pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws y gweithlu cyfan | Canran yr ymatebwyr a geisiodd ddilyniant gyrfa yn ystod y 12 mis diwethaf.<br><br>Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno bod cyflogwr yn gweithredu'n deg o ran dyrchafiad | SCHG Gofal Cymdeithasol 3[16]<br><br>Arolwg Staff |
| **Mynediad at wasanaethau** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |

[16] Canran y staff (a) sydd wedi ceisio cyfle dilyniant yn ystod y 12 mis diwethaf a (b) a fyddai'n ystyried ceisio cyfle dilyniant, gan gymharu staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o'i gymharu â chydweithwyr Gwyn (arolwg staff).

### 3.5.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data

Er bod data gweithlu ar gael drwy'r Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (SCHG) ar gyfer Gofal Cymdeithasol, mae data cyfyngedig ar gael am ethnigrwydd defnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn golygu ei bod ar hyn o bryd yn anodd datblygu mesur/mesurau cynhwysfawr ar gyfer y fframwaith hwn sy'n cwmpasu defnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r mesurau yn y bennod Gofal Cymdeithasol yn cael eu llunio o ddwy ffynhonnell: y set ddata Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (Llywodraeth Cymru, n.d.c.).

ac arolwg Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (SCHG) ar gyfer Gofal Cymdeithasol

(Gofal Cymdeithasol Cymru, 2024)

.

Mae'r data Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yn seiliedig ar gipolwg ar blant sy'n dal i dderbyn gofal a chymorth rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth bob blwyddyn. Nid yw'r dull hwn yn cynnwys ymyraethau tymor byr ac achosion a agorwyd neu a gaewyd y tu allan i'r cyfnod hwnnw. Mae unrhyw blentyn heb ethnigrwydd wedi'i gofnodi wedi'i eithrio o ddadansoddiadau, a allai gamliwio amcangyfrifon ar gyfer grwpiau llai. Gall amrywiadau mewn arferion cofnodi awdurdodau lleol gyflwyno anghysondebau, ac mewn data cyhoeddedig, mae cyfrifiadau yn cael eu talgrynnu i'r pump agosaf neu eu hatal ar gyfer rheoli datgelu.

Mae arolwg SCHG ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn dibynnu ar brofiadau hunanadrodd gwirfoddol staff. Gall unigolion oedi cyn datgelu materion sensitif fel bwlio, gwahaniaethu neu aflonyddu, gan arwain at adrodd annigonol. Gall meintiau sampl bach mewn rhai grwpiau ethnig achosi gogwydd mawr mewn canrannau o un flwyddyn i’r llall sy'n adlewyrchu sŵn ystadegol yn hytrach na newid go iawn. Mae'r arolwg yn dal digwyddiadau cydnabyddedig ac adroddedig yn unig, a gall categorïau ffynhonnell (er enghraifft, rheolwr yn erbyn cydweithiwr) orgyffwrdd, gan achosi priodoli amherffaith. Ymddengys bod rhai grwpiau ethnig, fel 'Arall' neu 'Gymysg', ar goll, wedi'u hatal neu wedi'u tan-gofnodi. Mae ymatebion yn gwbl wirfoddol, gydag opsiynau 'niwtral' neu 'dwi ddim yn gwybod' ar gael, gall cofio â thuedd effeithio ymhellach ar y canlyniadau. Gall yr holl gyfyngiadau hyn effeithio ar ansawdd data.

## 3.6 Cartrefi a lleoedd (H&P)

Nod y camau a'r canlyniadau yn y bennod "Cartrefi a Lleoedd" yw sicrhau mynediad cyfartal at amodau tai braf, diogel sy'n diwallu anghenion pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, yn ogystal ag ymgorffori gwrth-hiliaeth o fewn gweithlu ac arweinyddiaeth y sector tai (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.t. 81-82)..

### 3.6.1 Mesurau cartrefi a lleoedd

*Tabl 12: Mesurau cartrefi a lleoedd cyffredin*

| | **Mesurau cyffredin** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Thema gyffredin** | **Nod** | **Canlyniad** | **Mesur** | **Ffynhonnell** |
| **Llesiant** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Amh.– Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Mynediad at wasanaethau** | H&P 14: Cydnabod bod angen llety diogel, diwylliannol briodol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau ac i fynd i'r afael â'r diffyg o ran y ddarpariaeth o | Gwell mynediad at gartrefi symudol i'w rhentu o ansawdd da ar gyfer Cymunedau Sipsiwn, | Canran y safleoedd carafanau awdurdodedig, yn ôl awdurdod lleol. | Cyfrif carafanau Cymru Gyfan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | safleoedd ac ansawdd gwael llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. | Roma a Theithwyr. | | |
| **Mynediad at wasanaethau** | H&P 5: Bydd ymchwil a gwerthusiad sy'n ymwneud â chartrefi a lleoedd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Sefydliadau'r Trydydd Sector yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n galluogi i brofiadau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys hil, gael eu cofnodi a bod yn destun adroddiad i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu halinio i gyflawni blaenoriaethau, megis lleihau lefelau gorlenwi a digartrefedd. | Mae gwell tystiolaeth yn darparu polisïau, rhaglenni a mentrau gwell i bawb. | Cyfradd fesul 10,000 o deuluoedd a aseswyd fel rhai digartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn ôl ethnigrwydd. | Casglu data digartrefedd, Llywodraeth Cymru |
| **Mynediad at wasanaethau** | H&P 5: Bydd ymchwil a gwerthusiad sy'n ymwneud â chartrefi a lleoedd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Sefydliadau'r Trydydd Sector yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n galluogi i brofiadau pobl sy'n rhannu | Mae gwell tystiolaeth yn darparu polisïau, rhaglenni a mentrau gwell i bawb. | Canran y teuluoedd cymwys sydd dan fygythiad o ddigartrefedd, yn ôl canlyniad ac ethnigrwydd. | Casglu data digartrefedd, Llywodraeth Cymru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys hil, gael eu cofnodi a bod yn destun adroddiad i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu halinio i gyflawni blaenoriaethau, megis lleihau lefelau gorlenwi a digartrefedd. | | | |

**Mesurau penodol i bennod**

*Tabl 13 Mesurau cartrefi a lleoedd penodol*

| Thema benodol i bennod | Cam gweithredu | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Sefyllfa dai** | H&P 7: Gan weithio gyda sefydliadau a phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig gan gynnwys Hil, paratoi Asesiadau'r Farchnad Tai Leol yn unol â chanllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn asesu anghenion tai eu poblogaeth leol yn gywir. Unwaith y bydd angen tai wedi'i nodi, gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu | Gall awdurdodau lleol a Chymdeithasau Tai adeiladu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion pobl o leiafrifoedd ethnig ac eraill yn eu cymunedau. | Canran o’r bobl sy'n berchen ar eu cartref neu sy'n rhentu eu cartref, yn ôl ethnigrwydd. | Arolwg Poblogaeth Blynyddol |

| | |
|---|---|
| | tai sy'n cwrdd â'r galw yn well |

### 3.6.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data:

Mae'r bennod Tai yn cydnabod yr angen am well data a thystiolaeth o fewn y sector, er mwyn deall anghydraddoldebau a phrofiadau o hiliaeth yn y sector yn well (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.82). Mae data yn aml yn brin o ddadansoddiadau ethnigrwydd manwl a chysondeb ar draws sefydliadau sy'n gweithio yn y sector tai, gan ei gwneud hi'n anodd mesur effeithiolrwydd camau gweithredu sydd â'r nod o wella amodau tai a lleihau digartrefedd i grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae data cyfyngedig ar gymunedau Teithwyr, Sipsiwn, Roma a'u hamgylchiadau byw hefyd yn cael ei amlygu fel bwlch tystiolaeth arbennig.

Mae'r mesurau yn y bennod Cartrefi a Lleoedd yn cael eu llunio o dair ffynhonnell ddata: y Casgliad Data Digartrefedd (Llywodraeth Cymru, n.d.d.), y Cyfrif Carafanau Sipsiwn a Theithwyr (Llywodraeth Cymru, n.d.e.) a'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (SYG, n.d.).

Mae ethnigrwydd wedi’i hunanadrodd neu wedi’i adrodd gan aelwyd ym mhob ffynhonnell. Mae pob ffynhonnell hefyd yn rhannu rhai cyfyngiadau ystadegol cyffredin; mae gwybodaeth ethnigrwydd sydd ar gael wedi'i chydgasglu i bum categori eang, a all guddio gwahaniaethau is-grŵp pwysig. Gall cyfrifiadau bach ar gyfer rhai grwpiau o fewn amcangyfrifon arolwg arwain at ansicrwydd a chyfyngau hyder eang, a gall atal rheoli datgelu effeithio ar bob ffynhonnell.

Mae'r Casgliad Data Digartrefedd yn casglu gwybodaeth am aelwydydd sy'n gwneud cais i awdurdodau lleol am gymorth tai a gweithgareddau awdurdodau tai lleol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Llywodraeth y DU 2014). Mae hyn yn cynnwys atal a lleddfu digartrefedd yn ogystal â nifer y teuluoedd digartref mewn llety dros dro. Gall teuluoedd unigol wneud ceisiadau lluosog mewn blwyddyn benodol. Mae ethnigrwydd yr ymgeisydd arweiniol yn cael ei gasglu, fodd bynnag, nid yw ethnigrwydd aelodau eraill o'r aelwyd yn cael ei gasglu.

Mae'r Cyfrif Carafanau Sipsiwn a Theithwyr yn darparu cipolwg bob dwy flynedd (ym mis Ionawr a Gorffennaf) ar nifer y carafanau Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd awdurdodedig ac anawdurdodedig yng Nghymru. Mae'r cyfrifiadau hyn wedi'u dynodi yn "Ystadegau Swyddogol yn cael eu datblygu," a chyfrif Ionawr 2025 yw'r cyfrif diweddaraf i'w gynnal tra bod y gyfres wedi'i hoedi i'w hadolygu (Llywodraeth Cymru, n.d.e.). Nid ydynt yn amcangyfrif niferoedd aelwydydd nac yn nodi teuluoedd sy'n byw mewn tai brics a morter, felly maent yn tan-ddatgan cyfanswm yr angen am lety. Nid yw'r data yn disgrifio ansawdd amodau byw na dewisiadau llety.

Mae’r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (ONS, n.d.). yn darparu data ar ddeiliadaeth sy'n deillio o gyfweliadau hunanadrodd ac sy'n destun amrywioldeb samplu, yn enwedig ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig llai. Mae nifer isel o samplau yn cynhyrchu cyfyngau hyder eang, gan wneud rhai cymariaethau o un flwyddyn i’r llall yn annibynadwy ar gyfer mesurau

sy'n defnyddio'r data hwn. Adroddir am gategorïau ethnigrwydd llai manwl[17], sy'n cuddio gwahaniaethau o fewn y grŵp. Nid yw'r arolwg yn cynnwys y rhai mewn sefydliadau cymunedol, a allai fod yn tangynrychioli poblogaethau dros dro neu sydd newydd gyrraedd.

## 3.7 Llywodraeth Leol (LG)

Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn cynnwys y 22 awdurdod unedol, 731 o gynghorau tref a chymuned, 4 awdurdod parc cenedlaethol, 3 awdurdod tân ac achub a 4 cyd-bwyllgor corfforedig.

Mae camau gweithredu a chanlyniadau'r bennod llywodraeth leol yn canolbwyntio ar hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth democratiaeth leol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogi a galluogi pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i sefyll am swydd etholedig leol yn ogystal â chreu amgylchedd lle mae pawb eisiau ac yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn democratiaeth, gan gynnwys trwy arfer eu hawl i bleidleisio.

Mae'r bennod yn nodi bod llywodraeth leol yn rhan hanfodol o sector cyhoeddus Cymru, a ddylai gynnwys dangos arfer gorau fel cyflogwr gwrth-hiliol – mae nifer o gamau gweithredu a chanlyniadau yn y bennod hon yn ymwneud â sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer dilyniant i bob gweithiwr yn y sector, ac amrywiaeth briodol o fewn rolau arweinyddiaeth.

Mae'r bennod yn nodi bod y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a ddarperir gan lywodraeth leol yn cael eu hystyried mewn mannau eraill o fewn yr ArWAP ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys gan y camau gweithredu a'r canlyniadau ar gyfer y bennod hon (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.94).

### 3.7.1 Mesurau llywodraeth leol

*Tabl 14: Mesurau llywodraeth leol cyffredin*

| Mesurau cyffredin | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Thema gyffredin** | **Nod** | **Canlyniad** | **Mesur** | **Ffynhonnell** |
| **Llesiant** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |

[17] Y pum categori lefel uchel safonol wedi'u cysoni o ethnigrwydd yw: Grwpiau ethnig Gwyn, Cymysg neu Luosog, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd, a grŵp ethnig Arall.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael.. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Mynediad at wasanaethau** | Ymgorffori gwrth-hiliaeth wrth wraidd ein partneriaeth strategol gan weithio gyda llywodraeth leol | Polisïau ac arferion mwy cynhwysol sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol systemig sy'n meithrin gwell ymddiriedaeth ymhlith y cyhoedd, yn enwedig ymhlith cymunedau ymylol, trwy sicrhau mynediad teg at wasanaethau a chyfleoedd. | Canran y bobl sy'n fodlon/anfodlon â'u gallu i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol, yn ôl ethnigrwydd | Amh. |

## Mesurau penodol i bennod

*Tabl 15 Mesurau llywodraeth leol penodol*

| Thema benodol i bennod | Cam gweithredu | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dylanwadu ar benderfyniadau** | LG 5<br>Sefydlu natur a maint strategaethau cyfranogiad y cyhoedd.<br>Gwerthuso effaith canllawiau a gyhoeddwyd yn 2023 ar gymryd rhan a chyfranogiad mewn llywodraeth leol. | Mae cymunedau yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli’n well a’u bod â rhan mewn gwneud penderfyniadau llywodraeth leol. | Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno bod ganddynt gyfle i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynghylch rhedeg eu gwasanaethau awdurdod lleol, yn ôl ethnigrwydd. | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| **Dylanwadu ar benderfyniadau** | LG 5<br>Sefydlu natur a maint strategaethau cyfranogiad y cyhoedd.<br>Gwerthuso effaith canllawiau a gyhoeddwyd yn 2023 ar gymryd rhan a chyfranogiad mewn llywodraeth leol. | Mae cymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli’n well a’u bod â rhan mewn gwneud penderfyniadau llywodraeth leol | Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol, yn ôl ethnigrwydd. | Arolwg Cenedlaethol Cymru |

### 3.7.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data

Mae'r mesurau yn y bennod Llywodraeth Leol yn cael eu llunio o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yn cael ei gynnal bob 5 mlynedd gyda'r arolwg nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 2027. Felly, nid yw cymariaethau o un flwyddyn i’r llall yn bosibl. Mae'r angen i gydgasglu data i nifer fach o grwpiau ethnig ac eithrio ymgeiswyr nad oeddent yn adrodd am eu hethnigrwydd yn cynrychioli cyfyngiadau dadansoddi ychwanegol.

Mae'r bennod llywodraeth leol yn wynebu heriau wrth gasglu a chymharu data gweithlu ar draws y gwahanol awdurdodau lleol. Mae anghysondebau yn y ffordd y mae data yn cael ei

gasglu a'i gofnodi ar hyn o bryd ac nid yw data yn cael ei ganoli, sy'n ei gwneud hi'n anoddach casglu a chymharu ar draws gwahanol awdurdodau lleol.

Yn ogystal, mae angen mesur cynrychiolaeth a chanfyddiad pobl o'u cymuned a'u gwasanaethau sy'n aml yn anodd eu mesur gyda dangosyddion meintiol.

## 3.8 Cyflogadwyedd a sgiliau, gan gynnwys partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg ac entrepreneuriaeth (E&S)

Mae'r blaenoriaethau allweddol a nodir yn y bennod cyflogadwyedd a sgiliau yn cynnwys camau gweithredu a chanlyniadau sy'n gwella cydweithredu trawslywodraethol i fynd i'r afael â bylchau cyflog, ymgorffori gwrth-hiliaeth a chynhwysiant mewn strwythurau partneriaeth gymdeithasol, a chynyddu ymwybyddiaeth o hawliau gweithle. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori gwrth-hiliaeth yn y rhaglenni cyflogadwyedd a ariennir neu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant sgiliau a gobeithion cyflogaeth sy'n bodoli yng Nghymru yn hygyrch i bawb. Mae'r bennod hefyd yn cyd-fynd yn agos â'r bennod Arweinyddiaeth, yn enwedig wrth hyrwyddo recriwtio lleiafrifoedd ethnig, dilyniant, ac arferion gweithle teg.

### 3.8.1 Cyflogadwyedd a sgiliau, gan gynnwys partneriaeth gymdeithasol a mesurau gwaith teg ac entrepreneuriaeth

*Tabl 16: Cyflogadwyedd a sgiliau cyffredin, gan gynnwys partneriaeth gymdeithasol a mesurau gwaith teg ac entrepreneuriaeth*

**Mesurau cyffredin**

| Thema gyffredin | Nod | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Llesiant** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes | Amh. | Amh. | Amh. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | digon o ddata ar gael. | | | |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | E&S 11: Lleihau a dileu'r bwlch cyflog ethnigrwydd rhwng gweithwyr lleiafrifoedd ethnig a gwyn | Gweithleoedd mwy amrywiol, cydlynol a chynhyrchiol sy'n galluogi pobl Lleiafrifoedd Ethnig i gyrraedd eu potensial llawn | Cyfradd cyflogaeth yn ôl ethnigrwydd a rhyw (dangosydd dirprwyol). | Arolwg Poblogaeth Blynyddol |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | E&S 11: Lleihau a dileu'r bwlch cyflog ethnigrwydd rhwng gweithwyr lleiafrifoedd ethnig a gwyn | Gweithleoedd mwy amrywiol, cydlynol a chynhyrchiol sy'n galluogi pobl Lleiafrifoedd Ethnig i gyrraedd eu potensial llawn | Canran y bobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith, yn ôl ethnigrwydd a rhyw (dangosydd dirprwyol). | NWI 22 Canran y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, wedi'u mesur yn ôl gwahanol grwpiau oedran. |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Amh.– Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Mynediad at wasanaethau** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau | Amh. | Amh. | Amh. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | | | |

**Mesurau penodol i bennod**

*Tabl 17 Cyflogadwyedd a sgiliau penodol, gan gynnwys partneriaeth gymdeithasol a mesurau gwaith teg ac entrepreneuriaeth*

| Thema benodol i bennod | Cam gweithredu | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| Bwlch cyflog | E&S 9: Lleihau a dileu'r bwlch cyflog ethnigrwydd rhwng gweithwyr lleiafrifoedd ethnig a gwyn | Tuedd o welliant yn y bwlch cyflog rhwng gweithwyr lleiafrifoedd ethnig a gwyn | Amcangyfrif o gyflogau canolrifol yr awr, yn ôl ethnigrwydd a rhyw. | NI 17 Gwahaniaeth cyflog ar gyfer rhyw, anabledd ac ethnigrwydd. |

### 3.8.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data

Mae'r mesurau yn y bennod Cyflogadwyedd a Sgiliau yn cael eu llunio o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol.

Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn caniatáu dadansoddiad gan bum grŵp ehangach, sy'n cyd-fynd â safon gysoni ethnigrwydd GYLI: Gwyn, Cymysg, Asiaidd, Du, ac Arall (Llywodraeth y DU, 2025)

Mae is-grwpiau Asiaidd ychwanegol wedi'u cynnwys, ond mae'r amcangyfrifon hyn yn llai dibynadwy a dylid eu dehongli yn ofalus oherwydd cyfyngau hyder eang. Disgwylir i'r Arolwg Llafurlu Trawsffurfiedig (Swyddfa Ystadegau Gwladol, n.d.b) sydd ar ddod ddarparu samplau mwy o faint sy’n fwy cynrychioladol, gan ganiatáu dadansoddiadau mwy manwl a chadarn yn y dyfodol. Yn y cyfamser, dylid trin newidiadau o un flwyddyn i’r llall, yn enwedig ar gyfer is-grwpiau llai, yn ofalus, ac mae samplau bach iawn wedi'u hatal o adrodd gweledol.

## 3.9 Cenedl noddfa (NoS)

Mae'r bennod hon yn amlinellu ymrwymiad Cymru i gefnogi ceiswyr noddfa ac yn cydnabod bod llawer o'r heriau mwyaf dybryd sy'n wynebu ceiswyr noddfa, megis statws mewnfudo, prosesu lloches, a mynediad at arian cyhoeddus, yn cael eu llywodraethu gan Lywodraeth y DU ac felly'n disgyn y tu allan i gymhwysedd datganoledig Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn creu cyfyngiad strwythurol: er y gall Cymru gynnig gwasanaethau cymorth, cyngor ac eiriolaeth, ni all ddiwygio'r system yn uniongyrchol. Mae'r bennod yn cydnabod y cyfyngiad hwn yn benodol, gan nodi bod ceiswyr noddfa yn agored i ganlyniadau fel digartrefedd, iechyd gwael, ac ecsbloetio oherwydd eu statws cyfreithiol ac ariannol ansicr. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddylanwadu ar bolisi a lliniaru niwed, gan hefyd gryfhau gwasanaethau datganoledig i ddarparu cymorth diwylliannol cymwys, hygyrch o fewn ei chylch gorchwyl.

### 3.9.1 Mesurau Cenedl noddfa

Gan fod mewnfudo y tu allan i bwerau deddfwriaethol Cymru, mae'r data yn eistedd yn bennaf gyda Llywodraeth y DU ac mae data sy'n benodol i Gymru yn gyfyngedig iawn neu ddim ar gael, sy'n cael ei adlewyrchu yn y nifer cyfyngedig o fesurau a nodir isod.

**Mesurau cyffredin**

*Tabl 18: Mesurau cenedl noddfa cyffredin*

| Thema Gyffredin | Nod | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Llesiant** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig | Amh. | Amh. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | | | |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Mynediad at wasanaethau** | NoS 2: Gweithredu ein Fframwaith Integreiddio Ymfudwyr ar gyfer Cymru. | Bydd profiadau a chanlyniadau ymfudwyr yng Nghymru yn cael eu deall yn well. Gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau i wella integreiddio | Cyfradd y digwyddiadau meddygon teulu fesul person yng Nghymru yn ôl gwlad geni. | Banc Data SAIL |

### 3.9.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data

Gall data sy'n ymwneud â'r canlyniadau a brofwyd gan geiswyr noddfa sy'n byw yng Nghymru fod yn anodd iawn i'w gasglu oherwydd y gyfran gymharol fach o geiswyr noddfa sy'n cael mynediad at wasanaethau, ystyriaethau diogelwch data a'r ofn o erledigaeth y gallai llawer o bobl sy'n cyrraedd ei deimlo o ran darparwyr gwasanaethau Cymru oherwydd profiadau a achosodd iddynt ddadleoli.

Mae rhywfaint o ddata ar geiswyr noddfa yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU, ond nid ar bob cynllun ymfudo ac yn aml nid ar lefel Cymru. Mae hon yn her y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hi yn rhannol drwy weithredu ein Fframwaith Integreiddio Ymfudwyr i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2024c) a thrafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU.

## 3.10 Trosedd a chyfiawnder

Nid yw cyfiawnder troseddol (carchardai, heddlu, prawf, llysoedd a meysydd cysylltiedig) wedi'i ddatganoli yng Nghymru eto. Mae pennod Trosedd a Chyfiawnder yr ArWAP yn cydnabod y cyfyngiad hwn ac yn hytrach yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder y DU i gyflawni eu camau gweithredu ArWAP, gan ganolbwyntio ar y meysydd allweddol lle mae gennym gyfrifoldebau a phwerau i ysgogi newid fel Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn cynnwys drwy Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, 2022), sy'n nodi ymrwymiadau i adeiladu system gyfiawnder gwrth-hiliol gyda phartneriaid ledled Cymru.

.

### 3.10.1 Troseddu a chyfiawnder, gan gynnwys mesurau troseddau casineb

*Tabl 19: Mesurau troseddu a chyfiawnder cyffredin*

**Mesurau cyffredin**

| Thema gyffredin | Nod | Canlyniad | Mesur | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Llesiant** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod | Amh. | Amh. | Amh. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | | | |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | C&SJ 2: Defnyddio'r ysgogiadau o fewn ymrwymiad SCCH Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â gwahaniaethu a chefnogi dull gwrth-hiliol. | Dull mwy cadarn, systematig a chyson o gasglu data gweithlu'r heddlu ar ethnigrwydd a hil yng Nghymru, gan arwain at sylfaen dystiolaeth gryfach i lywio'r broses o wneud penderfyniadau wrth recriwtio personél lleiafrifoedd ethnig. Mae SCCHau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. | Gweithlu'r heddlu yn ôl rheng swyddog, rhyw a gwlad (2021 i 2024) | Data gweithlu'r heddlu, Y Swyddfa Gartref |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mynediad at wasanaethau** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |

**Themâu penodol i bennod**

*Tabl 20 Mesurau troseddu a chyfiawnder penodol*

| **Thema benodol i bennod** | **Cam gweithredu** | **Canlyniad** | **Mesur** | **Ffynhonnell** |
|---|---|---|---|---|
| **Cydlyniant cymunedol** | C&SJ 14: Mynd i'r afael â hiliaeth drwy adeiladu cymunedau cydlynol ac integredig | Meithrin cydlyniant a meithrin cysylltiadau rhwng pobl o wahanol gefndiroedd. | Canran y bobl sy'n cytuno bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| **Cydlyniant cymunedol** | C&SJ 14: Mynd i'r afael â hiliaeth drwy adeiladu cymunedau cydlynol ac integredig | Meithrin cydlyniant a meithrin cysylltiadau rhwng pobl o wahanol gefndiroedd. | Canran y bobl sy'n cytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda gyda'i gilydd. | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| **Troseddau casineb** | C&SJ 7: Sicrhau bod Cymru'n parhau i ymdrechu i fod yn wlad wrth-hiliol ac | Bydd llygad-dystion yn deall troseddau casineb yn well ac yn cael eu cymell i weithredu | Cyfran y dioddefwyr troseddau casineb yn ôl ethnigrwydd hysbys a gofnodwyd gan | Data troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | felly yn lle diogel i fyw, drwy ddileu agweddau casineb a chefnogi dioddefwyr troseddau casineb â chymhelliant hiliol. | mewn ffordd wrth-hiliol i gefnogi dioddefwyr.<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth o'r opsiwn o adrodd wrth drydydd parti os nad yw dioddefwyr neu lygad-dystion yn teimlo'n gyfforddus yn cysylltu â'r heddlu i adrodd am drosedd casineb. | yr heddlu– troseddau wedi'u gwaethygu gan hil neu grefydd<br><br>Cyfradd y troseddau wedi'u gwaethygu gan grefydd fesul 10,000 o bobl yn ôl crefydd a gofnodwyd gan yr heddlu.<br><br>Troseddau casineb fesul 10,000 o bobl gyda hil neu grefydd fel y ffactor ysgogol a gofnodwyd gan yr heddlu. | Troseddau a chanlyniadau Cais am Ryddid Gwybodaeth a data cyfrifiad 2021 a gofnodwyd gan yr heddlu. Y Swyddfa Gartref<br><br>Troseddau a chanlyniadau Cais am Ryddid Gwybodaeth a data cyfrifiad 2021 a gofnodwyd gan yr heddlu. Y Swyddfa Gartref |

### 3.10.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data

Mae'r bennod Trosedd a Chyfiawnder yn tynnu ar dair ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru n.d.b.), data Gweithlu Heddlu'r Swyddfa Gartref (y Swyddfa Gartref n.d.), data Cyfrifiad 2021 (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2022), ac ystadegau Troseddau Casineb y Swyddfa Gartref (y Swyddfa Gartref n.d.a.).

Mae ystadegau troseddau casineb y Swyddfa Gartref yn cwmpasu troseddau a adroddwyd wrth yr heddlu ac a nodwyd yn gywir fel rhai hiliol neu grefyddol. Mae llawer o gofnodion yn 2023/24 yn rhestru ethnigrwydd dioddefwyr fel 'anhysbys', a gall gwahanol heddluoedd amrywio o ran pa mor aml y maent yn cadw'r manylion hyn, gan gyflwyno tuedd ddaearyddol. Mae ymchwil yn dangos bod cyfraddau adrodd yn wahanol yn ôl ethnigrwydd

(Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2024), math o drosedd a chyd-destun lleol, felly gall mynychder gwirioneddol gael ei dan-gofnodi mewn rhai grwpiau.

Gall gwelliannau mewn arferion cofnodi greu cynnydd amlwg sy'n adlewyrchu cipio data yn well yn hytrach na chynnydd gwirioneddol, ac amrywiadau yn y ffordd y mae gwahanol heddluoedd yn nodi troseddau casineb yn cyflwyno anghysondeb pellach. Dim ond un cymhelliant sy'n cael ei gofnodi fesul trosedd, felly gall digwyddiadau sy'n cael eu hysgogi gan sawl ffactor gael eu tan-gofnodi.

Mae data Gweithlu’r Heddlu yn gasgliad data sy’n debyg i gyfrifiad a dynnir o ffurflenni'r Swyddfa Gartref bob blwyddyn, ar 31 Mawrth bob blwyddyn felly mae'r data yn gipolwg ar y gweithlu ar y dyddiad hwnnw. Mae ethnigrwydd yn hunanddatganedig ac yn wirfoddol, ac mae cyfrifiadau bach ymhlith grwpiau lleiafrifol yn gwneud ffigurau o un flwyddyn i’r llall yn gyfnewidiol.

## 3.11 Gofal plant a chwarae (C&P)

Mae'r bennod Gofal Plant a Chwarae yn nodi strategaeth gydweithredol i ymgorffori gwrth-hiliaeth ar draws y sector. Mae'r camau gweithredu a'r canlyniadau o fewn pennod Gofal Plant a Chwarae ArWAP wedi'u rhannu'n dri maes: gweithlu, rhieni a phlant.

Mae camau gweithredu ar gyfer gwella profiad y gweithle ar gyfer staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystyried sicrhau arweinyddiaeth wrth-hiliol, mwy o amrywiaeth hiliol yn y sector a chyfleoedd ar gyfer dilyniant i bawb.

Mae camau eraill yn canolbwyntio ar nodi a dileu rhwystrau rhag gwasanaethau gofal plant i bob rhiant a theulu, yn ogystal â sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at leoliadau gofal plant sy’n briodol yn ddiwylliannol sy'n archwilio ac yn dathlu amrywiaeth.

### 3.11.1 Mesurau gofal plant a chwarae

*Tabl 21: Mesurau gofal plant a chwarae cyffredin*

| Mesurau cyffredin | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Thema gyffredin** | **Nod** | **Canlyniad** | **Mesur** | **Ffynhonnell** |
| **Llesiant** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes | Amh. | Amh. | Amh. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | digon o ddata ar gael. | | | |
| **Cynrychiolaeth ac amrywiaeth y gweithlu** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Bwlio, aflonyddu a chwynion** | Amh. – Naill ai nid oes unrhyw ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn yn y bennod hon, neu nid oes digon o ddata ar gael. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Mynediad at wasanaethau** | C&P 7: Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phobl o Gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, i nodi'r rhwystrau sy'n wynebu'r cymunedau hyn wrth gael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys sut y gellir cael gwared ar | Mae gan bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig fynediad cyfartal at wasanaethau gofal plant | Canran yr oedolion sydd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol ar gyfer eu plentyn | Arolwg Cenedlaethol Cymru. |

rwystrau rhag mynediad at wasanaethau.

### 3.11.2 Ffynonellau a chyfyngiadau data

Mae pennod Gofal Plant a Chwarae ArWAP yn tynnu sylw at y ffaith bod diffyg data ethnigrwydd yn y sector yn gwneud dadansoddiad yn heriol. Nid oes unrhyw ofynion gorfodol ar ddarparwyr gofal plant sector preifat i gasglu data ethnigrwydd ac i adrodd arnynt os ydynt yn gwneud hynny. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn deall y dirwedd ddata o fewn y sector.

Mae'r data presennol yn bennaf ansoddol ac archwiliadol, a dim ond un mesur yr ydym wedi gallu nodi o'r data sydd ar gael ar hyn o bryd. Gellid defnyddio'r dangosydd hwn, a ddisgrifir yn nhabl 13, i helpu i ddeall i ba raddau y gall pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig gael mynediad at ofal plant. Wrth gwrs, mae cyfyngiadau ar ddefnyddio'r mesur hwn gan y gallai fod mwy nag un rheswm pam mae pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn dewis peidio neu’n methu â chael mynediad at ofal plant. Felly, mae'n bwysig cynnal ymchwil pellach i ganfod pam y gallai hyn fod yn wir. Mae'r mesur yn adlewyrchu defnydd a adroddwyd yn hytrach nag angen neu addasrwydd heb ei ddiwallu, a gall fforddiadwyedd, argaeledd, cymhwysedd, patrymau gweithio a dewisiadau diwylliannol ddylanwadu arno.

Daw'r mesur o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae archwilio'r data ar gyfer cwestiynau’r Arolwg Cenedlaethol hwn, yn dangos bod meintiau sampl isel yn her arbennig i ddangosyddion pennod Gofal Plant a Chwarae. Mae gan nifer o flynyddoedd arolwg samplau lleiafrifoedd ethnig o dan 40, a fydd yn cyfyngu ar ddadansoddiad is-grŵp yn ôl ethnigrwydd a bydd yn cynhyrchu hyder eang. Efallai na fydd cwestiynau’r arolwg sydd eu hangen i gynhyrchu'r dangosydd hefyd yn ymddangos ym mhob ton o Arolwg Cenedlaethol Cymru, a allai arwain at fylchau mwy o faint yn y gyfres amser. Gall newidiadau yn y dyfodol ym modd yr arolwg neu eiriad cwestiwn effeithio ymhellach ar gymhariaeth dros amser.

# 4.0 Sut bydd y fframwaith hwn yn cael ei ddiweddaru yn y dyfodol?

Er mwyn sicrhau bod fframwaith dangosyddion ArWAP yn parhau i fod yn berthnasol, yn gadarn ac yn addas i'r diben, bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Mae'r amserlen hon yn cyd-fynd â chylch rhyddhau'r rhan fwyaf o ffynonellau data a nodwyd i boblogi'r fframwaith, sydd fel arfer yn cael eu diweddaru'n flynyddol. O ganlyniad, ni fyddai diweddariadau amlach yn ymarferol o ystyried argaeledd data.

Wrth i dirwedd data cydraddoldeb barhau i esblygu, byddwn yn ystyried yn rhagweithiol ymgorffori setiau data a ffynonellau newydd a gwell a all wella ehangder, manylder ac ansawdd dangosyddion y fframwaith. Bydd ein dull yn parhau i fod yn hyblyg ac yn flaengar, gan gydnabod pwysigrwydd addasu i welliannau mewn casglu a dadansoddi data dros amser.

Yn ogystal, bydd y mesurau o fewn y fframwaith yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd mewn cydweithrediad agos a chydlyniant â chydweithwyr polisi a grwpiau llywodraethu ArWAP. Bydd hyn yn sicrhau bod y fframwaith yn esblygu ochr yn ochr â'r rhaglen ArWAP ei hun ac yn parhau i alinio’n agos â blaenoriaethau ac anghenion ei ddefnyddwyr, a all gynnwys newid neu ddileu mesurau. Pan wneir newidiadau sylweddol, bydd y rhain yn cael eu dogfennu a'u cyfleu'n dryloyw i gynnal parhad ac ymddiriedaeth yn y fframwaith.

## 5.0 Cyfeiriadau


Crenshaw, K. (1991) *Mapping the margins: Intersectionality, identity politics, and violence against women of color.* Stanford Law Review, 43(6), t.t. 1241–1299.

Crown Prosecution Service (CPS) (2024) *Hate Crime*. Ar gael: https://www.cps.gov.uk/hate-crime (Gwelwyd: 9 Chwefror 2026).

Cwm Taf Morgannwg University Health Board (2023) *Maternity Patient Reported Experience Measure (PREM) 2022 Report.* Ar gael: https://ctmuhb.nhs.wales/.../maternity-prem-2022-report-qsc-24-may-2023-pdf/ (Gwelwyd: 29/01/26).

Department for Communities and Local Government (2015) *Planning policy for traveller sites*. London: DCLG. Ar gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/457420/Final_planning_and_travellers_policy.pdf (Gwelwyd: 1 Chwefror 2026).

Greenwald, A.G. and Banaji, M.R. (1995) ‘Implicit social cognition: attitudes, self-esteem, and stereotypes’, *Psychological Review*, 102(1), t.t. 4–27.

Government Statistical Service (2014) *Guidance for tables produced from administrative sources.* Ar gael: https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/gssgsr- disclosure control for tables produced from administrative sources – Government Analysis Function (Gwelwyd 29/08/25)

HM Prison and Probation Service (2022) *Criminal Justice Anti-Racism Action Plan for Wales.* Ar gael: https://www.gov.uk/government/publications/criminal-justice-anti-racism-action-plan-for-wales (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026).

HM Treasury (2020) *The Magenta Book: Guidance for evaluation*. London: HM Treasury. Ar gael: https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book (Gwelwyd: 9 Chwefror 2026).

Home Office (n.d.) *Police workforce, England and Wales: statistics.* Ar gael: https://www.gov.uk/government/collections/police-workforce-england-and-wales (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026).

Home Office (n.d.a.) *Hate crime, England and Wales: data and publications.* Ar gael: https://www.gov.uk/government/collections/hate-crime-statistics (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026).

Macpherson, W. (1999) *The Stephen Lawrence Inquiry: Report of an Inquiry by Sir William Macpherson of Cluny*. London: The Stationery Office (Cm 4262-I).

Ministry of Justice. (2024). *Statistics on Ethnicity and the Criminal Justice System, 2022*. [online] GOV.UK. Ar gael: https://www.gov.uk/government/statistics/ethnicity-and-the-criminal-justice-system-2022/statistics-on-ethnicity-and-the-criminal-justice-system-2022-html [Gwelwyd 01/09/25]

GIG Cymru (n.d.) *Safon Cydraddoldeb y Gweithlu i Gymru.* Ar gael: https://www.gig.cymru/sa/safon-cydraddoldeb-y-gweithlu/ (Gwelwyd: 29/01/26).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) *Canlyniadau Cyfrifiad 2021.* Ar gael: https://cy.ons.gov.uk/census (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026).

Office for National Statistics (2025) *New study launched to better understand Roma communities*. Ar gael: https://blog.ons.gov.uk/2025/04/30/new-study-launched-to-better-understand-roma-communities/ (Gwelwyd: 1 Chwefror 2026).

Office for National Statistics (ONS) (2025) *Ethnicity harmonised standard*. Addaswyd o: Government Analysis Function. Ar gael: https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/ethnicity-harmonised-standard/

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (n.d.) *Annual Population Survey.* Ar gael: https://www.cy.ons.gov.uk (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (n.d.b) *Arolwg o'r Llafurlu.* Ar gael: https://cy.ons.gov.uk/surveys/informationforhouseholdsandindividuals/householdandindividualsurveys/labourforcesurvey (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026).

Office for National Statistics (n.d.c) *Uncertainty and how we measure it for our surveys*. Ar gael: https://www.ons.gov.uk/methodology/methodologytopicsandstatisticalconcepts/uncertaintyandhowwemeasureit (Gwelwyd: 9 Chwefror 2026)

Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru a GIG Cymru (2024) *adroddiad gofal cymdeithasol Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES).* Ar gael: https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/safon-cydraddoldeb-hil-y-gweithlu? (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026)

UK Government (2010) *Equality Act 2010 – Section 9: Race*. Ar gael: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/9

UK Government (2025) *Annex C: Government Statistical Service harmonised categories for ethnicity.* Ar gael: https://www.gov.uk/government/consultations/equality-race-and-disability-bill-mandatory-ethnicity-and-disability-pay-gap-reporting/annex-c-government-statistical-service-harmonised-categories-for-ethnicity (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026)

Llywodraeth Cymru (n.d.a) *Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD)*. Ar gael: https://www.llyw.cymru/cyfrifiad-ysgolion-blynyddol-ar-lefel-disgyblion-cybld? (Gwelwyd: 26/01/26). Llywodraeth Cymru (n.d.b) *Arolwg Cenedlathol Cymru.* Ar gael: https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru? (Gwelwyd: 29/01/26).

Llywodraeth Cymru (n.d.c.) *Plant sy'n derbyn gofal a chymorth: set ddata ystadegol.* Ar gael: https://stats.llyw.cymru/cy (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026).

Llywodraeth Cymru (n.d.d) *Homelessness data collection.* Ar gael: https://stats,llyw.cymru/cy (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026).

Llywodraeth Cymru (n.d.e) *Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr.* Ar gael: https://stats.llyw.cymru/cy (Gwelwyd: 29 Ionawr 2026).

Llywodraeth Cymru (2019*) Cenedl Noddfa: Cynllun ffoaduriad a cheiswyr lloches*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

*Llywodraeth Cymru (2022a). Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.* Ar gael*: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-adran-a-html?* (Gwelwyd 15/06/25)

Llywodraeth  Cymru (2022b) *Dangosyddion llesiant cenedlaethol*. Ar gael: https://www.llyw.cymru/dangosyddion-cenedlaethol? (Gwelwyd 15/06/25)

Llywodraeth Cymru (2024a). *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024.* Ar gael*:* https://www.gov.wales/anti-racist-wales-action-plan-2024-update-html *(*Gwelwyd *16/06/25)*

Llywodraeth Cymru (2024b) *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Fframwaith Mesur Effaith*. Ar gael: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-fframwaith-mesur-effaith-html? (Gwelwyd 16/06/25)

Llywodraeth Cymru. (2024c). *Y Fframwaith Integreiddio Mudwyr*. [ar-lein] Ar gael: https://www.llyw.cymru/y-fframwaith-integreiddio-mudwyr-html [Gwelwyd 01/09/25].

Llywodraeth Cymru (2025) *Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 i 2029*. Ar gael: https://www.llyw.cymru/cynllun-cydraddoldeb-hawliau-dynol-strategol-2025-i-2029-html? (Gwelwyd: 29/08/25)